OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 101 (Cy.14)

PRIFFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn cymryd lle Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) 1992 ("Rheoliadau 1992"), gydag addasiadau, o ran Cymru.

Mae Rheoliad 3 yn cynnwys diffiniadau o "gwaith pwysig", "mân weithiau" "gwaith safonol" a "gwaith brys".

Mae Rheoliad 4 yn gosod gofynion o ran ffurf y gofrestr gwaith stryd y mae'n ofynnol i awdurdod strydoedd ei chadw o dan adran 53(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ("Deddf 1991"). Mae hefyd yn rhagnodi'r wybodaeth o ran gwaith stryd sydd i'w chadw yn y gofrestr ynghyd â gwybodaeth ynghylch categorïau penodol o waith stryd, gwaith arall, hysbysiadau, trwyddedau, offer, gwaith adfer a gwybodaeth arall sydd i'w chadw. Gwneir darpariaeth i wybodaeth a ardystir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth at ddibenion gwarchod diogelwch gwladol ac i wybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol i ymgymerwr fod yn wybodaeth gyfyngedig at ddibenion adran 53(3) o Ddeddf 1991.

Mae Rheoliad 5 yn rhagnodi, gan gyfeirio at y Fanyleb Dechnegol ar gyfer Trosglwyddo Hysbysiadau yn Electronig a luniwyd gan Yr Adran Drafnidiaeth ac sy'n ddyddiedig 5 Gorffennaf 2007 fel y'i hadolygwyd neu y'i hail ddyroddwyd o bryd i'w gilydd, ffurf yr hysbysiad sydd i'w roi at ddibenion adrannau 54, 55, 57, 58, 58A, 66, 70 a 72(3) o Ddeddf 1991. Mae'r adrannau hyn yn ymwneud â rhaghysbysiad o weithiau penodol, hysbysiad o

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2008 No. 101 (W.14)

HIGHWAYS, WALES

The Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) (Wales) Regulations 2008

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations replace, with modifications, the Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) Regulations 1992 ("the 1992 Regulations"), as respects Wales.

Regulation 3 includes definitions of "major works", "minor works", "standard works" and "urgent works".

Regulation 4 sets out requirements as to the form of the street works register that a street authority is required to keep under section 53(1) of the New Roads and Street Works Act 1991 ("the 1991 Act"). It also prescribes the information with respect to street works which is to be held in the register together with information about certain categories of street, other works, notices, licences, apparatus, reinstatements and other matters that must also be held. Provision is made for information certified by the Secretary of State for Transport for the purpose of safeguarding national security and for information which is commercially sensitive to an undertaker to be restricted information for the purposes of section 53(3) of the 1991 Act.

Regulation 5 prescribes, by reference to the Technical Specification for the Electronic Transfer of Notices produced by the Department for Transport and dated 5th July 2007 as revised or reissued from time to time, the form of notice to be given for the purposes of sections 54, 55, 57, 58, 58A, 66, 70, and 72(3) of the 1991 Act. These sections deal with advance notice of certain works, notice of starting date of works, notice of emergency works, restrictions on works following

dyddiad dechrau gwaith, hysbysiad o waith argyfwng, cyfyngiadau ar waith yn sgil gwaith ffordd sylweddol ac yn sgil gwaith stryd sylweddol, osgoi oedi neu rwystro diangen, gwaith adfer a ffioedd a bennir gan gyfeirio at gyfnod parhad y gwaith. Darperir hefyd ar gyfer cynnwys gwybodaeth bellach mewn hysbysiadau o dan adrannau 54, 55, 57 a 58A ac ar gyfer ffurf hysbysiadau eraill.

both substantial road works and substantial street works and the avoidance of unnecessary delay, obstruction or reinstatement. Provision is also made for additional information to be contained in notices under sections 54, 55, 57 and 58A and as to the form of other notices.

Mae Rheoliadau 6 a 7 yn gosod y modd y mae hysbysiadau o dan Ran III o Ddeddf 1991, ac eithrio y rhai hynny o dan adran 74, 74A neu Atodlen 4B, a chopïau o hysbysiadau, i gael eu cyflwyno ac maent yn cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer cyflwyno gan ddefnyddio "cyfathrebiadau electronig".

Regulations 6 and 7 set out the manner in which service of notices under Part III of the 1991 Act, other than those under section 74 or Schedule 4B, and copies of notices is to be effected and includes specific provision for service by using "electronic communications".

Mae Rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgymerwr roi rhaghysbysiad o ddim llai na thri mis ynglŷn â gweithiau pwysig, ac eithrio mewn achosion penodol, ac yn rhagnodi cyfnodau eraill at ddibenion hysbysiadau o dan adran 54 o Ddeddf 1991.

Regulation 8 requires an undertaker to give not less than three months advance notice of major works, except in certain cases, and prescribes other periods for the purposes of notices under section 54 of the 1991 Act.

Mae Rheoliad 9 yn rhagnodi cyfnod rhoi hysbysiad o ddyddiad dechrau gwaith stryd, y mae'n ofynnol ei roi o dan adran 55 o Ddeddf 1991, ar gyfer gweithiau pwysig, mân weithiau, gwaith safonol a gwaith argyfwng. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth amgen pan roddir hysbysiad o dan adran 58(1) yn cyfyngu ar waith stryd yn y dyfodol yn sgil gwaith ffordd sylweddol drwy sefydlu cyfnod o ddim mwy na 20 niwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwnnw pan fo rhaid i ymgymerwyr, nad ydynt eisoes wedi rhoi hysbysiad o waith arfaethedig, roi hysbysiad o'r hyn a arfaethir ganddynt. Mae hefyd yn ymdrin â materion eraill cysylltiedig ag adran 55.

Regulation 9 prescribes the period of notice of starting date of street works, required to be given under section 55 of the 1991 Act, for major, standard, minor and urgent works. It also makes alternative provision where a notice is given under section 58(1) restricting future street works following substantial road works by establishing a period of not more than 20 days from publication of that notice in which undertakers, who have not already given notice of proposed works, must give notice of their proposals. It also deals with other matters connected with section 55.

Mae Rheoliad 10 yn gosod y weithdrefn sydd i'w dilyn pan fo awdurdod strydoedd yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 56(1) neu (1A) o Ddeddf 1991 o ran amseriad gwaith stryd neu o dan adran 56A o ran gosod offer. Mae hefyd yn rhagnodi cyfnodau pan na fydd cyfarwyddiadau o'r fath yn effeithiol ar ôl i'r cyfnodau hynny ddod i ben.

Regulation 10 sets out the procedure to be followed where a street authority give a direction under section 56(1) or (1A) of the 1991 Act as to the timing of street works or under section 56A as to the placing of apparatus. It also prescribes periods after which such directions will not be effective.

Mae Rheoliad 11 yn diffinio "gwaith ffordd sylweddol" at ddibenion adran 58(1) o Ddeddf 1991, yn rhagnodi gwahanol gyfnodau ar gyfer cyfyngiadau ar waith stryd yn sgil cwblhau gwaith ffordd sylweddol ac yn darparu bod rhaid cyhoeddi hysbysiad o gyfyngiad arfaethedig o dan yr adran hon ar unrhyw wefan a gynhelir gan yr awdurdod strydoedd perthnasol at y diben o roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Mae'n mynd rhagddo i ragnodi personau ychwanegol y mae'n rhaid rhoi copi o'r hysbysiad iddynt, a chategorïau o waith y caniateir ei wneud er gwaethaf y cyfyngiad ac i ymdrin â nifer o faterion cysylltiedig.

Regulation 11 defines "substantial road works" for the purposes of section 58(1) of the 1991 Act, prescribes different periods for the restriction on street works following the completion of substantial road works and provides that notice of a proposed restriction under this section must be published on any website maintained by the street authority concerned for the purpose of providing the public with information. It goes on to prescribe additional persons to whom a copy of the notice must be given, additional categories of work that may be carried out despite the restriction and to deal with a number of related matters.

Mae Rheoliad 12 yn diffinio "gwaith stryd sylweddol " at ddibenion adran 58A o Ddeddf 1991 ac Atodlen 3A iddi. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth i hysbysiad o gyfyngiad arfaethedig ar waith stryd yn sgil cwblhau gwaith stryd sylweddol gael ei gyhoeddi

Regulation 12 defines "substantial street works" for the purposes of section 58A of, and Schedule 3A to, the 1991 Act. It makes provision for notice of a proposed restriction on street works following the completion of substantial street works to be published by way of a

ar wefan ac yn rhagnodi personau ychwanegol y mae'n rhaid rhoi copi o'r hysbysiad iddynt. Mae'n sefydlu cyfnod o ddim llai na 20 niwrnod o ddyddiad y cyhoeddi pan fo raid i ymgymerwyr, nad ydynt eisoes wedi rhoi hysbysiad o waith arfaethedig, hysbysu'r awdurdod strydoedd o'r hyn a arfaethir ganddynt ac yn rhagnodi ffurf hysbysiad o'r fath â'r modd i'w roi. Mae hefyd yn rhagnodi ffurf cyfarwyddyd sy'n gosod y cyfyngiad ac yn darparu iddo gael ei roi drwy ei gyhoeddi ar wefan. Mae'n pennu gwahanol gyfnodau ar gyfer cyfyngu ar waith stryd yn sgil cwblhau gwaith stryd sylweddol ac yn rhagnodi categorïau o waith y caniateir ei wneud er gwaethaf y cyfyngiad ac yn ymdrin â nifer o faterion cysylltiedig.

Mae Rheoliad 13 yn eseptio rheolwyr strydoedd (yr awdurdod strydoedd ar gyfer strydoedd nad ydynt yn briffyrdd a gynhelir) rhag y gofyniad i gadw cofrestr ac mae'n darparu mai'r awdurdod priffyrdd lleol fydd yr awdurdod strydoedd dros strydoedd o'r fath at ddibenion cadw cofrestr a chael gwybodaeth gan ymgymerwr ynglŷn â lleoliad offer a ganfyddwyd ganddo a disgrifiad ohono. Mae hefyd yn darparu na fydd adran 61 o Ddeddf 1991 (strydoedd a warchodir) yn gymwys i strydoedd nad ydynt yn briffyrdd a gynhelir pan fo gofyn cael cydsyniad o dan deddfiad arall i'w darnio neu i'w hagor.

Mae Rheoliadau 14(1), 15(1) a 16(1) a (2) yn pennu'r meini prawf y mae'n rhaid i awdurdod strydoedd eu defnyddio wrth ddynodi stryd yn stryd a warchodir o dan adran 61 o Ddeddf 1991, neu yn stryd ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig o dan adran 63 neu, ac eithrio pan fo'r dynodiad drwy gytundeb rhwng yr awdurdod strydoedd a mwyafrif yr ymgymerwyr y gŵyr yr awdurdod fod ganddynt offer yn y stryd, yn stryd sy'n sensitif i draffig o dan adran 64.

Mae Rheoliadau 14(3), 15(3) a 16(6) yn gosod yr wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdod strydoedd sicrhau ei bod ar gael pan fo'n dynodi stryd yn stryd a warchodir, yn stryd ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig neu'n stryd sy'n sensitif i draffig.

Mae Rheoliad 14(2) a Rhannau 1 a 3 o'r Atodlen yn gosod y weithdrefn ar gyfer dynodi stryd yn stryd a warchodir. Darperir ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o ddynodiad arfaethedig ar wefan, ar gyfer ei chyflwyno i gyrff a phersonau penodedig ac ar gyfer cynnal ymchwiliad lleol cyn gwneud dynodiad os oes gwrthwynebiadau.

Mae Rheoliadau 15(2), 16(4) a Rhannau 2 a 3 o'r Atodlen yn gosod y weithdrefn ar gyfer dynodi stryd yn stryd ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig neu yn stryd sy'n sensitif i draffig. Darperir ar gyfer ar rhoi hysbysiad o'r cynnig i gyrff a phersonau penodedig ac ar gyfer ystyried gwrthwynebiadau cyn gwneud dynodiad.

website and prescribes additional persons to whom a copy of the notice must be given. It establishes a period of not less than 20 days from publication in which undertakers, who have not already given notice of proposed works, must notify the street authority of their proposals and prescribes the form of such notification and the manner of giving it. It also prescribes the form of a direction imposing the restriction and provides for it to be given by way of publication on a website. It specifies different periods for the restriction on street works following the completion of substantial street works, prescribes additional categories of work that may be carried out despite the restriction and deals with other related matters.

Regulation 13 exempts street managers (the street authority for a street which is not a maintainable highway) from the requirement to keep a register and provides that the local highway authority is to be the street authority for such a street for the purposes of keeping the register and receiving information from an undertaker as to the location and description of apparatus he or she has found. It also provides that section 61 of the 1991 Act (protected streets) will not apply to a street which is not a maintainable highway where consent to breaking up or opening is required under another enactment.

Regulations 14(1), 15(1) and 16(1) and (2) prescribe the criteria which a street authority must use when designating a street as protected under section 61 of the 1991 Act, as a street having special engineering difficulties under section 63 or, except where designation is by agreement between the street authority and the majority of undertakers whom they know to have apparatus in the street, as traffic-sensitive under section 64.

Regulations 14(3), 15(3) and 16(6) set out the information which a street authority must make available when designating a street as protected, as having special engineering difficulties or as traffic-sensitive.

Regulation 14(2) and Parts 1 and 3 of the Schedule set out the procedure for designating a street as protected. Provision is made for the publication of notice of a proposed designation by way of a website, its service upon specified bodies and persons and for the holding of a local inquiry before a designation is made if there are objections.

Regulations 15(2), 16(4) and Parts 2 and 3 of the Schedule set out the procedure for designating a street as having special engineering difficulties or as traffic-sensitive. Provision is made for the giving of a notice of the proposal to specified bodies and persons and for the consideration of objections before a designation is made.

Mae Rheoliadau 14(2), 15(2) a 16(4) a Rhan 4 o'r Atodlen yn darparu ar gyfer tynnu yn ôl ddynodiad stryd yn stryd a warchodir, yn stryd ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig neu'n stryd sy'n sensitif i draffig gan yr awdurdod strydoedd.

Mae Rheoliad 17 yn addasu adran 70(3) a (4) o Ddeddf 1991 (dyletswydd i hysbysu awdurdod o waith adfer fel y mae i'w gymhwyso o ran Cymru) drwy newid y cyfnod y mae'n rhaid rhoi hysbysiad interim a pharhaol i'r awdurdod strydoedd o 7 i 10 niwrnod gwaith.

Mae Rheoliad 18 yn rhagnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i ymgymerwyr ei rhoi i'r awdurdod strydoedd mewn hysbysiadau o dan adran 70 o Ddeddf 1991 ynglŷn â gwaith adfer interim a pharhaol.

Mae Rheoliad 19 yn datgymhwyso'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â gweithiau stryd yng Nghymru y rhoddwyd hysbysiad yn eu cylch o dan adran 54(1), 55(1) neu 57 o Ddeddf 1991 cyn dyddiad eu dod i rym ac yn cadw cymhwysiant Rheoliadau 1992 mewn perthynas â'r gweithiau hynny.

Mae'r cyhoeddiad a ddyroddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) ar 1 Awst 2006 sy'n dwyn y teitl "Spatial data sets for geographical referencing — specification for a street gazetteer" dan gyfeirnod Rhif BS 7666 — 1 2006 (ISBN 0 580 48710 5) i'w gael o unrhyw fan gwerthu a redir gan y BSI neu drwy'r post oddi wrth y BSI o Milton Keynes. Mae'r cyhoeddiad sy'n dwyn y teitl "Manyleb ar gyfer Adfer Agorfeydd mewn Priffordd" a wnaed ar 7 Tachwedd 2006 ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Ionawr 2007 i'w gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn http://new.wales.gov.uk/legislation/legislationinforce/nonsi/HighwaysWales/HighwaysWales2006/SpecificationReinstatementHighwaylang=en. Mae'r ddogfen "Technical Specification for the Electronic Transfer of Notices" dyddiedig 5 Gorffennaf 2007 ar gael ar wefan Yr Adran Drafnidiaeth' yn www.dft.gov.uk/roads/streetworks ac fe'i cyhoeddir maes o law.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol ar gael gan yr Is-adran Rheoli Rhwydwaith Ffyrdd, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfeydd y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn http://www.assemblywales.org/bus-home/buslegislation/bus/bus-legislation-sub/bus-legislation-sub-annulment.htm

Regulations 14(2), 15(2) and 16(4) and Part 4 of the Schedule provide for the withdrawal by a street authority of a designation of a street as protected, as having special engineering difficulties or as traffic-sensitive.

Regulation 17 modifies section 70(3) and (4A) of the 1991 Act (duty to notify authority of reinstatement) (in its application as respects Wales) by changing the period within which notice of interim and permanent reinstatements must be notified to the street authority from 7 to 10 working days.

Regulation 18 prescribes the information that undertakers must give to the street authority in notices under section 70 of the 1991 Act about interim and permanent reinstatements.

Regulation 19 disapplies these Regulations in relation to street works in Wales in respect of which a notice under section 54(1), 55(1) or 57 of the 1991 Act was given before the date on which they come into force and preserves the application of the 1992 Regulations in respect of those works.

The publication issued by the British Standards Institution (BSI) on 1st August 2006 entitled "Spatial data sets for geographical referencing — specification for a street gazetteer" under reference No. BS 7666 — 1 2006 (ISBN 0 580 48710 5) can be obtained from any of the sales outlets operated by the BSI, or by post from the BSI at Milton Keynes. The publication entitled "Specification for the Reinstatement of Openings in Highways" made on 7th November 2006 and approved by the National Assembly for Wales on 24th January 2007 can be obtained from the Welsh Assembly Government website at http://new.wales.gov.uk/legislation/legislationinforce/nonsi/HighwaysWales/HighwaysWales2006/SpecificationReinstatementHighwaylang=en. The "Technical Specification for the Electronic Transfer of Notices" dated 5th July 2007 is available on the Department for Transport's website at www.dft.gov.uk/roads/streetworks and will be published in due course.

A full Regulatory Impact Assessment and Explanatory Memorandum can be obtained from the Roads Network Management Division, Transport Wales, Welsh Assembly Government, Crown Offices, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ or on the Welsh Assembly Government website at http://www.assemblywales.org/bus-home/buslegislation/bus/bus-legislation-sub/bus-legislation-sub-annulment.htm

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 101 (Cy.14)

PRIFFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) 2008

Gwnaed	*17 Ionawr 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*18 Ionawr 2008*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2008*

TREFN Y RHEOLIADAU

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Diwygio Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) 1992
3. Dehongli
4. Cofrestrau gwaith stryd
5. Hysbysiad rhagnodedig
6. Dull cyflwyno hysbysiadau
7. Dull cyflwyno copïau o hysbysiadau
8. Hysbysiad ymlaen llaw o waith
9. Hysbysiad o ddyddiad cychwyn gwaith
10. Y Weithdrefn ar gyfer rhoi cyfarwyddiadau o dan adran 56 neu 56A
11. Cyfyngiadau ar waith yn sgil gwaith ffordd sylweddol
12. Cyfyngiadau ar waith yn sgil gwaith stryd sylweddol
13. Esemptiadau ac addasiadau
14. Dynodi strydoedd yn strydoedd a warchodir
15. Dynodi strydoedd yn rhai ag iddynt anawsterau peirianyddol arbennig
16. Dynodi strydoedd yn rhai sy'n sensitif i draffig
17. Addasu adran 70(3) a (4A)
18. Hysbysiad o waith adfer
19. Trefniadau trosiannol

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2008 No. 101 (W.14)

HIGHWAYS, WALES

The Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) (Wales) Regulations 2008

Made	*17 January 2008*
Laid before the National Assembly for Wales	*18 January 2008*
Coming into force	*1 April 2008*

ARRANGEMENT OF REGULATIONS

1. Title, commencement and application
2. Amendment of the Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) Regulations 1992
3. Interpretation
4. Street works registers
5. Prescribed notice
6. Manner of service of notices
7. Manner of service of copies of notices
8. Advance notice of works
9. Notice of starting date of works
10. Procedure for giving directions under section 56 or 56A
11. Restriction on works following substantial road works
12. Restriction on works following substantial street works
13. Exemptions and adaptations
14. Designation of streets as protected
15. Designation of streets as having special engineering difficulties
16. Designation of streets as traffic-sensitive
17. Modification of section 70(3) and (4A)
18. Notification of reinstatement
19. Transitional arrangements

YR ATODLEN

GWEITHDREFNAU AR GYFER DYNODIADAU O DAN ADRANNAU 61, 63 A 64 A THYNNU DYNODIADAU O'R FATH YN ÔL

RHAN 1

1. Dynodi strydoedd yn strydoedd a warchodir

RHAN 2

2. Dynodi strydoedd yn rhai ag iddynt anawsterau peirianyddol arbennig neu yn rhai sy'n sensitif i draffig

RHAN 3

3. Hysbysiad o ddynodiad

RHAN 4

4. Tynnu dynodiad yn ôl a chofnodi penderfyniadau

RHAN 5

5. Dehongli

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 48(2), 49(5), 53(1), (2), (3) a (6), 54(1), (2), (3), (4), (4A), a (4B), 55(1), (2), (3), (7) a (8), 56(2), 56A(4), 57(2) a (3), 58(1), (2), (3), (4), (5), (7) a (7A), 58A, 62(1), 63(2), 64(1) a 2, 70(3) (b), (4A) a (4B), 97, 104(1) a (3) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(a pharagraffau 1(2), 2 (2), (3), (4)(f) a (5), 3(5)(b), 4(4) a (5) a 5(2)(c), (3) a (4) o Atodlen 3A iddi (**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

(**1**) 1991 p.22. Diwygir adran 53 yn rhagolygol gan adran 45 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004"). Diwygir adran 53 yn rhagolygol, a mewnosodir adrannau (4A), (4B) a (4C) gan adran 49(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004"). Diwygir adran 55(2) a (5) gan adran 51(9) a 40(1) a (2) o Ddeddf 2004 ac Atodlen 1 iddi, a mewnosodir adran 55(8) a (9) gan adran 49(2) o'r Ddeddf honno. Mewnosodir adran 56A gan adran 44 o Ddeddf 2004. Diwygir adran 58(1), (2), (3), (4), (6)(b) a (7) gan adran 51 o Ddeddf 2004 a mewnosodir adran 58(7A) ganddi. Diwygir adran 58(6)(a) gan adran 40(1) a (2) o'r Ddeddf honno ac Atodlen 1 iddi. Mewnosodir Adran 58A ac Atodlen 3 gan adran 52(1) a (2) . Amnewidir adran 70(3) a (4) gan adran 54 o'r Ddeddf honno a mewnosodir adrannau (1A), (4A) a (4B) ganddi. Diwygir adran 70(6) gan adran 40(3) o Ddeddf 2004 a mewnosodir adran 95A ac Atodlenni 4A a 4B a gan adran 41 o'r Ddeddf honno, ac Atodlenni 2 a 3 iddi. Mae yna ddiwygiadau a diwygiadau rhagolygol eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Cafodd holl swyddogaethau Gweinidog y Goron o dan Ddeddf 1991, ac eithrio adran 167(3), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672), erthygl 2, Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan adran 96 Deddf Rheoli Traffig 2004(p.18) ("Deddf 2004"). Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

SCHEDULE

PROCEDURES FOR DESIGNATIONS UNDER SECTIONS 61, 63 AND 64 AND WITHDRAWAL OF SUCH DESIGNATIONS

PART 1

1. Designation of streets protected

PART 2

2. Designation of streets as having special engineering difficulties or as being traffic-sensitive

PART 3

3. Notice of designation

PART 4

4. Withdrawal of designation and recording of decisions

PART 5

5. Interpretation

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the National Assembly for Wales by sections 48(2), 49(5), 53(1), (2), (3) and (6), 54(1), (2), (3), (4), (4A), and (4B), 55(1), (2), (3), (7) and (8), 56(2), 56A(4), 57(2) and (3), 58(1), (2), (3), (4), (5), (7) and (7A), 58A, 62(1), 63(2), 64(1) and 2, 70(3) (b), (4A) and (4B), 97, 104(1) and (3) of, and paragraphs1(2), 2 (2), (3), (4)(f) and (5), 3(5)(b), 4(4) and (5) and 5(2)(c), (3) and (4) of Schedule 3A to, the New Roads and Street Works Act 1991(**1**), and now vested in them(**2**), make the following Regulations.

(**1**) 1991 c.22. Section 53 is prospectively amended by section 45 of the Traffic Management Act 2004. Section 54 is prospectively amended, and (4A), (4B) and (4C) inserted, by section 49(1) of the Traffic Management Act 2004 ("the 2004 Act"). Section 55(2) and (5) are amended by section 51(9) and 40(1) and (2) of, and Schedule 1 to, the 2004 Act and section 55(8) and (9) are inserted by section 49(2) of that Act. Section 56A is inserted by section 44 of the 2004 Act. Section 58(1), (2), (3), (4), (6)(b) and (7) are amended, and section 58(7A) inserted, by section 51 of the 2004 Act. Section 58(6)(a) is amended by section 40(1) and (2) of, and Schedule 1 to, that Act. Section 58A and Schedule 3A are inserted by section 52(1) and (2) of the 2004 Act. Section 70(3) and (4) are substituted, and (1A), (4A) and (4B) inserted, by section 54 of that Act. Section 70(6) is amended by section 40(3) of the 2004 Act and section 95A and Schedules 4A and 4B are inserted by section 41 of, and Schedules 2 and 3 to, that Act. There are other amendments and prospective amendments which are not relevant to these Regulations.

(**2**) All functions of a Minister of the Crown under the 1991Act, except section 167(3), so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2, Schedule 1, as amended by section 96 of the Traffic Management Act 2004 (c.18) ("the 2004 Act"). The functions of the National Assembly for Wales under the New Roads and Street Works Act 1991 were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) 2008; deuant i rym ar 1 Ebrill 2008 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) 1992

2.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 19, diwygir Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) 1992(**1**) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 1 mewnosoder y rheoliad canlynol—

"**Cymhwyso**

1A. Dirymir y Rheoliadau hyn mewn perthynas â Chymru."

Dehongli

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "amser sy'n sensitif i draffig" ("*traffic-sensitive time*"), mewn perthynas â stryd sy'n sensitif i draffig yw

(a) yn achos dynodiad cyfyngedig, yr adegau neu'r dyddiadau a bennir; a

(b) mewn unrhyw achos arall, unrhyw adeg;

ystyr "categori o ffordd" ("*road category*") yw un o'r categorïau o ffyrdd a bennir ym mharagraff 1.3.1 o Bennod S1 o gôd ymarfer 2006 rhif 72, sy'n dwyn y teitl "Manyleb ar gyfer Adfer Agorfeydd mewn Priffyrdd" dyddiedig Tachwedd 2006 ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Ionawr 2007.

ystyr "cofrestr gwaith stryd" ("*street works register*") yw cofrestr y mae'n ofynnol i awdurdod stryd ei chadw yn ôl adran 53 o Ddeddf 1991;

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991;

ystyr "diwrnod" ("*day*") yw diwrnod gwaith;

Title, commencement and application

1. The title of these Regulations is the Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) (Wales) Regulations 2008, they come into force on 1st April 2008 and apply in relation to Wales.

Amendment of the Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) Regulations 1992

2.—(1) Subject to regulation 19, the Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) Regulations 1992(**1**) are amended as follows.

(2) After regulation 1 there is inserted the following regulation —

"**Application**

1A. These Regulations are revoked in relation to Wales."

Interpretation

3.—(1) In these Regulations —

"the 1984 Act" means the Road Traffic Regulation Act 1984(**2**);

"the 1991 Act" means the New Roads and Street Works Act 1991;

"the 2002 Regulations" means the Traffic Signs Regulations 2002(**3**);

"day" means a working day;

"immediate works" means urgent works or emergency works;

"limited designation" means a designation in accordance with regulation 16(3) for particular times or on particular dates;

"major works" means —

(a) street works which have been identified in the annual operating programme of an undertaker, or which, though not specifically identified in such programme, would normally be planned or known about at least six months in advance of the date proposed for the works;

(b) street works, other than immediate works, where —

(**1**) O.S. 1992/2985; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/990 a 2128 a 1999/1049.

(**2**) 1984 p.27. Amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991, adran 1(1) ac Atodlen 1. Diwygiwyd adran 138(3) gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Canlyniadol) 1988, adran 4 ac Atodlen 3, paragraff 25(8).

(**1**) S.I. 1992/2985; as amended by S.I. 1995/990 and 2128 and 1999/1049.

(**2**) 1984 c.27. Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991, section 1(1) and Schedule 1. Section 138(3) was amended by the Road Traffic (Consequential Provisions) Act 1988, section 4 and Schedule 3, paragraph 25(8).

(**3**) Part 1 of S.I. 2002/3113, as amended by S.I. 2005/1670. There are other amendments not relevant to these Regulations.

ystyr "dynodiad cyfyngedig" ("*limited designation*") yw dynodiad yn unol â rheoliad 16(3) am adegau penodol neu ar ddyddiadau penodol;

ystyr "y Fanyleb Dechnolegol" ("*the Technical Specification*") yw'r Fanyleb Dechnolegol ar gyfer Trosglwyddo Hysbysiadau yn Electronig a luniwyd gan Yr Adran Drafnidiaeth ac sy'n ddyddiedig 5 Gorffennaf 2007 fel y'i hadolygwyd neu y'i hail ddyroddwyd o bryd i'w gilydd,;

ystyr "gwaith brys" ("*urgent works*") yw

(a) gwaith stryd, ac eithrio gwaith argyfwng, y mae'n angenrheidiol eu gwneud ar yr adeg pan gânt eu gwneud

(i) er mwyn atal neu ddwyn i ben unrhyw ymyrraeth annisgwyl â chyflenwad neu wasanaeth a ddarperir gan ymgymerwr;

(ii) er mwyn osgoi colled sylweddol i ymgymerwr mewn perthynas â gwasanaeth cyfredol; neu

(iii) er mwyn ail gysylltu cyflenwadau neu wasanaethau pan fyddai'r ymgymerwr dan atebolrwydd sifil neu droseddol petai'r ail gysylltu yn cael ei ddal yn ôl hyd nes i'r cyfnod hysbysu priodol ddod i ben; a

(b) mae'n cynnwys gwaith na ellir yn rhesymol ei wahanu oddi wrth waith o'r fath.

ystyr "gwaith disymwth" ("*immediate works*") yw gwaith brys neu waith argyfwng;

ystyr "gwaith pwysig" ("*major works*") yw

(a) gwaith stryd a ddynodwyd yn rhaglen weithredol flynyddol ymgymerwr, neu er nas dynodwyd yn benodol mewn rhaglen o'r fath, y byddid fel rheol yn ei gynllunio neu yn dod yn ymwybodol ohono o leiaf chwe mis cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer y gwaith;

(b) gwaith stryd ac eithrio gwaith disymwth

(i) pan fo'r awdurdod stryd wedi crybwyll wrth ymgymerwr; neu

(ii) pan fo ymgymerwr o'r farn

fod angen gorchymyn o dan adran 14 o'r Ddeddf (gwaharddiad neu gyfyngiad dros dro ar ffyrdd); neu

(c) gwaith stryd, ac eithrio gwaith disymwth, y cynlluniwyd iddynt gymryd mwy na deng niwrnod;

ystyr "gwaith safonol" ("*standard works*") yw gwaith stryd, ac eithrio gwaith disymwth neu weithiau pwysig, y cynlluniwyd iddynt gymryd mwy na thri diwrnod ond dim mwy na deng niwrnod.

ystyr "mân weithiau" ("*minor works*") yw gwaith stryd ac eithrio gwaith disymwth, na chynlluniwyd iddynt gymryd mwy na thri diwrnod;

(i) the street authority has indicated to an undertaker; or

(ii) an undertaker considers,

that an order under section 14 of the 1984 Act (temporary prohibition or restriction on roads) is required; or

(c) street works, other than immediate works, the planned duration of which exceeds ten days;

"minor works" means street works, other than immediate works or major works, the planned duration of which does not exceed three days;

"road category" means one of the road categories specified in paragraph 1.3.1 of Chapter S1 of the Code of Practice 2006 no 72, entitled "The Specification for the Reinstatement of Openings in Highways" dated November 2006 and approved by the National Assembly for Wales on 24th January 2007;

"standard works" means street works, other than immediate works or major works, the planned duration of which exceeds three days but does not exceed ten days;

"statutory undertaker" means a person entitled by virtue of a statutory right to carry out street works;

"street with special engineering difficulties" means a street designated as having special engineering difficulties under section 63 of the 1991 Act;

"street works register" means a register required to be kept by a street authority by section 53 of the 1991 Act;

"the Technical Specification" means the Technical Specification for the Electronic Transfer of Notices produced by the Department for Transport and dated 5th July 2007 as revised or reissued from time to time;

"traffic-sensitive street" means a street designated as traffic-sensitive under section 64 of the 1991 Act;

"traffic-sensitive time", in relation to a traffic-sensitive street, means —

(a) the times or dates specified in the case of a limited designation; and

(b) any time in any other case; and

"urgent works" —

(a) means street works, other than emergency works, whose execution at the time when they are executed is required (or which the person responsible for the works believes on reasonable grounds to be required) —

(i) to prevent or put an end to an unplanned interruption of any supply or service provided by an undertaker;

ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Arwyddion Traffig 2002(**1**);

ystyr "stryd ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig" ("*street with special engineering difficulties*") yw stryd a ddynodwyd yn un ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig o dan adran 63 o Ddeddf 1991;

ystyr "stryd sy'n sensitif i draffig" ("*traffic-sensitive street*") yw stryd a ddynodwyd yn un sy'n sensitif i draffig o dan adran 64 o Ddeddf 1991; ac

ystyr "ymgymerwr statudol" ("*statutory undertaker*") yw person sydd â hawl yn rhinwedd hawl statudol i wneud gwaith stryd.

(2) Oni bai bod darpariaeth benodol wahanol, mae cyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at adran â rhif yn gyfeiriad at yr adran sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Neddf 1991.

Cofrestrau gwaith stryd

4.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 13 ac i'r gofynion a osodir ym mharagraffau (2) a (3), rhaid i gofrestrau gwaith stryd gael eu cadw mewn modd fydd yn galluogi'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau (4) a (5), ynglŷn â stryd benodol, i gael ei holrhain.

(2) Rhaid i bob cofrestr-

(a) fod wedi'i mynegeio;

(b) heb fod yn ddiweddarach na 1 Ebrill 2009, fod yn seiliedig ar system wybodaeth ddaearyddol; ac

(c) ddynodi'r awdurdod priffyrdd mewn perthynas â phob stryd yn ardal yr awdurdod sy'n briffordd a gynhelir.

(3) Rhaid i bob cofrestr a gedwir gan awdurdod priffyrdd fod ar ffurf sydd yn cydymffurfio â'r system o gyfeirnodi strydoedd a bennir yn Rhan I o'r cyhoeddiad a ddyroddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 1 Awst 2006 dan yr enw "Spatial data sets for geographical referencing - specification for a street gazetteer" o dan gyfeirnod Rhif BS 7666-1 2006(**2**) fel y'i hadolygwyd neu y'i hail ddyroddwyd o bryd i'w gilydd,

(4) Caiff yr wybodaeth mewn perthynas â gwaith stryd sydd i ymddangos ar y gofrestr a'r person, ymhob achos, sydd â'r cyfrifoldeb o sicrhau ei gofrestru, eu pennu yng ngholofnau (1) a (2) yn eu trefn o'r Tabl a ganlyn.

(ii) to avoid substantial loss to an undertaker in relation to an existing service; or

(iii) to reconnect supplies or services where an undertaker would be under a civil or criminal liability if the reconnection is delayed until after the expiration of the appropriate notice period; and

(b) includes works which cannot reasonably be severed from such works.

(2) Unless it is expressly provided otherwise, a reference in these Regulations to a numbered section is a reference to the section so numbered in the 1991 Act.

Street works registers

4.—(1) Subject to regulation 13 and to the requirements set out in paragraphs (2) and (3), street works registers must be kept so as to enable the information referred to in paragraphs (4) and (5), relating to a particular street, to be traced.

(2) Each register must —

(a) be indexed;

(b) no later than 1st April 2009, be based on a geographical information system; and

(c) identify the highway authority in relation to every street in the street authority's area which is a maintainable highway.

(3) Every register kept by a local highway authority must be in a form which complies with the system of street referencing specified in Part I of the publication issued by the British Standards Institution on 1st August 2006 entitled "Spatial data sets for geographical referencing — specification for a street gazetteer" under reference No. BS 7666-1 2006(**1**) as revised or re-issued from time to time.

(4) The information with respect to street works to be shown on the register and, in each case, the person responsible for securing its registration are specified in columns (1) and (2) respectively of the following Table.

(**1**) Rhan 1 o O.S. 2002/3113, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/1670. Mae yna ddiwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) ISBN 0 580 48710 5.

(**1**) ISBN 0 580 48710 5.

Tabl

	(1) Gwybodaeth	*(2) Y person sydd â'r cyfrifoldeb o sicrhau ei gofrestru*
1.	Manylion pob hysbysiad o dan adrannau 54, 55 a 57 a gyflwynwyd i'r awdurdod priffyrdd ynglyn â gwaith stryd mewn unrhyw stryd sy'n briffordd a gynhelir.	Yr ymgymerwr perthnasol.
2.	Manylion pob hysbysiad o dan adrannau 54, 55 a 57 a gyflwynwyd i reolwyr strydoedd ynglyn â gwaith stryd mewn unrhyw stryd nad yw'n briffordd a gynhelir.	Yr ymgymerwr perthnasol.
3.	Manylion pob cyfarwyddyd a roddwyd o dan adrannau 56 a 56A.	Yr awdurdod strydoedd perthnasol.
4.	Manylion pob hysbysiad, cydsyniad a chyfarwyddyd a gyhoeddwyd neu a roddwyd gan awdurdod strydoedd o dan adrannau 58 a 58A.	Yr awdurdod strydoedd perthnasol.
5.	Manylion pob hysbysiad a wnaed gan ymgymerwr o dan baragraff 2(1)(d) o Atodlen 3A i Ddeddf 1991.	Yr ymgymerwr perthnasol.
6.	Manylion pob hysbysiad a gyflwynwyd gan awdurdod strydoedd o dan adran 66.	Yr awdurdod strydoedd perthnasol.
7.	Gwybodaeth o dan adran 70(3) a (4A) ynglyn â chwblhau gwaith adfer.	Yr ymgymerwr perthnasol.
8.	Manylion pob hysbysiad a roddwyd gan awdurdod strydoedd o dan adran 72(3).	Yr awdurdod strydoedd perthnasol.
9.	Manylion pob hysbysiad a roddwyd gan awdurdod o dan adran 74.	Yr awdurdod strydoedd perthnasol.
10.	Disgrifiad o waith stryd y cyflwynwyd planiau a thrychluniau ar ei gyfer o dan Atodlen 4 i Ddeddf 1991 a'i leoliad.	Yr ymgymerwr perthnasol.
11.	Manylion pob hysbysiad a roddwyd gan unrhyw awdurdod perthnasol o dan Atodlen 4 i Ddeddf 1991.	Yr awdurdod perthnasol.

Table

	(1) Information	*(2) Person responsible for securing its registration*
1.	Particulars of all notices under sections 54, 55 and 57 served on the highway authority relating to street works in any street which is a maintainable highway.	The undertaker concerned.
2.	Particulars of all notices under sections 54, 55 and 57 served on street managers relating to street works in any street which is not a maintainable highway.	The undertaker concerned.
3.	Particulars of all directions given under sections 56 and 56A.	The street authority concerned.
4.	Particulars of all notices, consents and directions published or given by a street authority under sections 58 and 58A.	The street authority concerned.
5.	Particulars of all notifications made by an undertaker under paragraph 2(1)(d) of Schedule 3A to the 1991 Act.	The undertaker concerned.
6.	Particulars of all notices served by a street authority under section 66.	The street authority concerned.
7.	Information under section 70(3) and (4A) as to completion of reinstatements.	The undertaker concerned.
8.	Particulars of all notices given by a street authority under section 72(3).	The street authority concerned.
9.	Particulars of all notices given by an undertaker under section 74.	The undertaker concerned.
10.	Particulars of all notices given by a street authority under section 74.	The street authority concerned.
11.	Description and location of street works for which plans and sections have been submitted under Schedule 4 to the 1991 Act.	The undertaker concerned.
12.	Particulars of notices given by any relevant authority under Schedule 4 to the 1991 Act.	The relevant authority.

(5) Caiff yr wybodaeth mewn perthynas â mathau eraill o waith a materion eraill sydd i ymddangos ar y gofrestr a'r person, ymhob achos, sydd â'r cyfrifoldeb o sicrhau ei gofrestru, eu pennu yng ngholofnau (1) a (2) yn eu trefn o'r Tabl a ganlyn.

Tabl

(1) Gwybodaeth		*(2) Y person sydd â'r cyfrifoldeb o sicrhau ei gofrestru*
1.	Pob stryd y mae'r awdurdod priffyrdd lleol yn awdurdod priffyrdd drosti.	Yr awdurdod priffyrdd lleol.
2.	Pob stryd sydd yn briffordd a gynhelir yn rhagolygol	Yr awdurdod priffyrdd lleol.
3.	Pob stryd y mae'r awdurdod priffyrdd yn ymwybodol ohoni sydd yn briffordd, ond nad yw'r awdurdod hwnnw yn awdurdod strydoedd drosti.	Yr awdurdod priffyrdd lleol.
4.	Pob stryd (a) sydd — (i) yn stryd a warchodir (**1**); (ii) yn stryd ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig neu (iii) yn stryd sy'n sensitif i draffig, gan gynnwys, pan fydd yn briodol, fanylion y rhannau o'r stryd a ddynodwyd felly ac, yn achos stryd sy'n sensitif i draffig, unrhyw ddynodiad cyfyngedig; neu (b) y bwriedir ei dynodi felly.	Yr awdurdod strydoedd perthnasol.
5.	Disgrifiad, amseriad a lleoliad gwaith at ddibenion ffyrdd a gweithiau pwysig priffyrdd sy'n golygu — (a) darnio'r briffordd; (b) agor cerbytffordd stryd sy'n sensitif i draffig ar adeg sy'n sensitif i draffig; neu	Yr awdurdod strydoedd perthnasol.

(**1**) *Gweler* adrannau 61 a 62 o Ddeddf ffyndd Newydd a Gwaith Stryd (1991 p.22).

(5) The information with respect to other descriptions of works and other matters to be shown on the register and, in each case, the person responsible for securing its registration are specified in columns (1) and (2) respectively of the following Table.

Table

(1) Information		*(2) Person responsible for securing its registration*
1.	Every street for which the local highway authority are the street authority.	The local highway authority.
2.	Every street which is a prospectively maintainable highway.	The local highway authority.
3.	Every street, of which the local highway authority are aware, which is a highway but for which they are not the street authority.	The local highway authority.
4.	Every street which — (a) is — (i) a protected street(**1**); (ii) a street with special engineering difficulties; or (iii) a traffic— sensitive street, including, where appropriate, details of the parts of the street so designated and, in the case of a traffic-sensitive street, of any limited designation; or (b) is proposed for designation as such.	The street authority concerned.
5.	Description, timing and location of works for road purposes and major highway works which involve — (a) breaking up the highway; (b) opening the carriageway of a traffic-sensitive street at a traffic-sensitive time; or	The street authority concerned.

(**1**) *See* sections 61 and 62 New Roads and Street Works Act 1991 (1991 c.22)

	(c) lleihau lled y gerbytffordd sydd ar gael i draffig cerbydol (i) o un neu fwy o lonydd traffig; (ii) o fwy na thraean mewn achos lle nad oes lonydd o'r fath; neu (iii) o unrhyw led mewn stryd sy'n sensitif i draffig ar adeg sensitif i draffig, ac unrhyw waith o'r fath y bwriedir ei wneud.	
6.	Manylion pob cydsyniad a roddwyd gan awdurdod strydoedd o dan adran 61 gyda manylion unrhyw amodau.	Yr awdurdod strydoedd perthnasol.
7.	Manylion pob cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 62.	Yr awdurdod strydoedd perthnasol.
8.	Manylion trwyddedau gwaith stryd, gan gynnwys manylion amodau a newidiadau mewn perchenogaeth.	Yr awdurdod strydoedd perthnasol.
9.	Manylion yr offer yr hysbyswyd yr awdurdod strydoedd ohono o dan adran 80(2).	Yr awdurdod strydoedd perthnasol.
10.	Pob hysbysiad o waith o dan adran 85(2)	Yr awdurdod perthnasol.
11.	Manylion cau ffyrdd a gwyriadau pan fo angen gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf 1984.	Yr awdurdod priffyrdd.
12.	Categori ffordd pob stryd.	Yr awdurdod strydoedd perthnasol

	(c) the width of carriageway available for vehicular traffic being reduced — (i) by one or more traffic lanes; (ii) by more than one third in a case where there are no such lanes; or (iii) by any amount in a traffic sensitive street at a traffic— sensitive time, and any such works that are proposed.	
6.	Particulars of all consents given by a street authority under section 61 together with details of any conditions.	The street authority concerned.
7.	Details of all directions given under section 62.	The street authority concerned.
8.	Particulars of street works licences, including details of conditions and of changes in ownership.	The street authority concerned.
9.	Particulars of apparatus notified to the street authority under section 80(2).	The street authority concerned.
10.	Every notice of works under section 85(2).	The authority concerned.
11.	Details of road closures and diversions where an order under section 14 of the 1984 Act is required.	The highway authority.
12.	The road category of each street.	The street authority concerned

(6) Mae gwybodaeth o'r mathau a ganlyn yn wybodaeth gyfyngedig at ddibenion adran 53(3);

(a) gwybodaeth a gafodd ardystiad neu awdurdodiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ei bod yn wybodaeth gyfyngedig oherwydd y byddai ei datgelu yn rhagfarnu gwarchod diogelwch gwladol, neu'n debygol o wneud hynny, a

(b) gwybodaeth a gafodd ardystiad neu awdurdodiad ymgymerwr ei bod yn wybodaeth gyfyngedig oherwydd y byddai ei datgelu yn rhagfarnu buddiannau masnachol yr ymgymerwr hwnnw, neu'n debygol o wneud hynny.

(7) Yn y rheoliad hwn—

mae i "lôn draffig" yr un ystyr ag sydd i'r ymadrodd "*traffic lane*" yn rheoliad 4 o Reoliadau 2002 ac mae'n cynnwys llain galed.

mae i "llain galed" yr un ystyr ag sydd i'r ymadrodd "*hard shoulder*" o dan reoliad 4 o Reoliadau 2002 ac mae'n cynnwys o ran unrhyw briffordd nad yw'n draffordd unrhyw lain galed a ddynodwyd i gymryd pwysau cerbyd ac y mae ei ochr dde neu ei ymyl bellaf wedi'i ddynodi ag arwydd traffig o'r math a ddangosir yn niagram 1012.3 yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny;

ystyr "y person sydd â'r cyfrifoldeb dros sicrhau'r cofrestriad" ("*person responsible for securing registration*") mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth, yw'r person sydd â'r cyfrifoldeb dros drosglwyddo'r cyfryw wybodaeth i'r awdurdod strydoedd i'w gofrestru yn y gofrestr gwaith stryd;

ystyr "system wybodaeth ddaearyddol" ("*geographical information system*") yw system ar gyfer dal, storio, gwirio, integreiddio, manipiwleiddio, dadansoddi ac arddangos data sy'n gysylltiedig â phwyntiau ar wyneb y Ddaear; ac

mae i "traffordd" yr un ystyr ag sydd i "*motorway*" o dan reoliad 4 o Reoliadau 2002;

Hysbysiad rhagnodedig

5.—(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad at ddibenion adran 54, 55, 57, 58A 66, 70 neu 72(3) fod yn y ffurf a geir yn y Fanyleb Dechnolegol neu mewn ffurf cyffelyb.

(2) Rhaid i hysbysiad at ddibenion adran 54, 55, 57 neu 58A hefyd gynnwys, yn ychwanegol at unrhyw wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys yn yr hysbysiad gan Ddeddf 1991, unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol gan y fanyleb honno i gwblhau'r rhannau o'r ffurflen y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) y dangosir ar y ffurflen honno ei bod yn berthnasol i'r hysbysiad.

(6) Information of the following types is restricted information for the purpose of section 53(3);

(a) information certified by, or with the authorisation of, the Secretary of State for Transport as being restricted information because its disclosure would, or would be likely to, prejudice the safeguarding of national security; and

(b) information certified by, or with the authorisation of, an undertaker as being restricted information because its disclosure would, or would be likely to, prejudice the commercial interests of that undertaker.

(7) In this regulation —

"geographical information system" ("*system wybodaeth ddaearyddol*") means a computer system for capturing, storing, checking, integrating, manipulating, analysing and displaying data related to positions on the Earth's surface;

"hard shoulder" ("*llain galed*") has the same meaning as it does under Regulation 4 of the 2002 Regulations and includes in relation to any highway which is not a motorway any hard strip which is designed to take the weight of a vehicle and which has the position of its right hand or off-side edge marked with a traffic sign of the type shown in diagram 1012.3 in Schedule 2 to those Regulations;

"motorway" ("*traffordd*") has the same meaning as it does under regulation 4 of the 2002 Regulations;

"person responsible for securing registration" ("*y person sydd â'r cyfrifoldeb dros sicrhau'r cofrestriad*") means, in relation to any information, the person responsible for conveying such information to the street authority for registration in the street works register; and

"traffic lane" ("*lôn draffig*") has the same meaning as in regulation 4 of the 2002 Regulations and includes a hard shoulder.

Prescribed notice

5.—(1) Any notice for the purposes of section 54, 55, 57, 58, 58A, 66, 70 or 72(3) must be in, or to the like effect as, the form contained in the Technical Specification.

(2) A notice for the purposes of section 54, 55, 57 or 58A must, in addition to any information required by the 1991 Act to be contained in the notice, also include such other information as may be required by that Specification to complete the parts of the form referred to in paragraph (1) which are indicated in that form as being relevant to the notice.

(3) Rhaid i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi neu yr awdurdodir ei roi at ddibenion unrhyw ddarpariaeth arall o Ran III o Ddeddf 1991, ac eithrio adran 74 neu Atodlen 4B o'r Ddeddf honno, fod yn ysgrifenedig, fod yn cyfeirio at y ddarpariaeth yn y Ddeddf y'i gwneir oddi tani ac, yn ddarostyngedig i'r uchod, caiff fod mewn unrhyw ffurf.

Dull cyflwyno hysbysiadau

6.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (5) a (7), pan fo ymgymerwr dan rwymedigaeth, o dan Ran III o Ddeddf 1991, i roi hysbysiad o fewn cyfnod penodol fod gwaith wedi ei ddechrau, ac eithrio o dan adran 74 rhaid rhoi hysbysiad o'r fath—

(a) drwy ei anfon at y person y mae i'w roi iddo yn ei gyfeiriad priodol gan ddefnyddio cyfathrebiad electronig yn unol â'r amod a osodir ym mharagraff (4);

(b) drwy ei ddanfon at y person hwnnw yn y cyfeiriad hwnnw; neu

(c) drwy unrhyw ddull arall y cytunwyd arno rhwng y person sy'n ei roi a'r person y mae i'w roi iddo.

(2) Os nad oes gan berson y mae ymgymerwr dan rwymedigaeth i roi hysbysiad o'r fath iddo drefniadau ar gyfer derbyn ac ymateb i hysbysiadau am unrhyw gyfnod rhwng 4.30pm ac 8.00am y diwrnod wedyn, bydd yr ymgymerwr wedi cydymffurfio â'i rwymedigaeth os bydd yn cyflwyno hysbysiad erbyn 10.00am ar y diwrnod canlynol hwnnw.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (7), mewn unrhyw achos arall pan fo'n ofynnol i berson roi hysbysiad neu yr awdurdodir person i'w roi o dan Ran III o Ddeddf 1991, ac eithrio o dan adran 74 neu Atodlen 4B o'r Ddeddf honno, rhaid rhoi hysbysiad o'r fath —

(a) drwy ei anfon at y person y mae i'w roi iddo yn ei gyfeiriad priodol gan ddefnyddio cyfathrebiad electronig yn unol â'r amod a osodir ym mharagraff (4);

(b) drwy ei anfon ato drwy'r post dosbarth cyntaf yn y cyfeiriad hwnnw;

(c) drwy ei ddanfon iddo;

(ch) drwy ei adael yn ei gyfeiriad priodol; neu

(d) drwy unrhyw ddull arall y cytunwyd arno rhwng y person sy'n ei roi a'r person y mae i'w roi iddo.

(4) Yr amod y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a) a (3)(a) yw bod rhaid—

(a) bod modd i'r person yr anfonir ef ato gael at yr hysbysiad;

(b) bod yr hysbysiad yn ddarllenadwy ym mhob manylyn perthnasol; ac

(c) bod yr hysbysiad mewn ffurf sy'n caniatáu iddo gael ei gadw er mwyn cyfeirio ato'n ddiweddarach,

(3) Any notice required or authorised to be given for the purposes of any other provision of Part III of the 1991 Act, other than section 74 or Schedule 4B to that Act, must be in writing, must refer to the provision of the Act pursuant to which it is given and, subject to the foregoing, may be in any form.

Manner of service of notices

6.—(1) Subject to paragraphs (2), (5) and (7), where under Part III of the 1991 Act an undertaker is under an obligation to give notice within a specified period of works having begun, other than under section 74, such notice must be given by —

(a) sending it to the person to whom it is to be given at his or her proper address by using an electronic communication in accordance with the condition set out in paragraph (4);

(b) delivering it to that person at that address; or

(c) any other means agreed between the person giving it and the person to whom it is to be given.

(2) Where the person to whom an undertaker is obliged to give such notice does not have arrangements for receiving and responding to notices for any period between 4.30pm and 8.00am the following day, the undertaker will have complied with his or her obligation if he or she serves a notice by 10.00am on that following day.

(3) Subject to paragraphs (5) and (7), in any other case where a person is required or authorised to give a notice under Part III of the 1991 Act, other than under section 74 or Schedule 4B to that Act, such notice must be given by —

(a) sending it to the person to whom it is to be given at his or her proper address by using an electronic communication in accordance with the condition set out in paragraph (4);

(b) sending it by first class post to him or her at that address;

(c) delivering it to him or her;

(d) leaving it at his or her proper address; or

(e) any other means agreed between the person giving it and the person to whom it is to be given.

(4) The condition referred to in paragraphs (1)(a) and (3)(a) is that the notice must be —

(a) capable of being accessed by the person to whom it is being sent;

(b) legible in all material respects; and

(c) in a form which permits the notice to be retained for subsequent reference,

ac at y diben hwn, ystyr "yn ddarllenadwy ym mhob manylyn perthnasol" yw bod yr wybodaeth a geir yn yr hysbysiad ar gael i'r person hwnnw i'r un graddau ag y byddai pes rhoddasid ar ffurf hysbysiad wedi'i argraffu.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), o 1 Ebrill 2009 a chan gynnwys y dyddiad hwnnw, rhaid cyfnewid pob hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi dan Ran III o Ddeddf 1991 gan awdurdod strydoedd neu gan ymgymerwr statudol, ac eithrio hysbysiadau o dan Atodlen 4B i'r Ddeddf honno, rhwng un awdurdod strydoedd ac un arall, rhwng un ymgymerwr statudol ac un arall, a rhwng awdurdod strydoedd ac ymgymerwr statudol gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig yn unol â'r amod a osodir ym mharagraff (4).

(6) Yn ddarostyngedig i adran 98(2) (cyfrifo cyfnodau), os defnyddir cyfathrebiad electronig at ddibenion cyflwyno hysbysiad, yna, oni phrofir i'r gwrthwyneb, bernir bod yr hysbysiad wedi'i roi ar y diwrnod ac ar yr adeg a gofnodir gan yr offer trosglwyddo fel dyddiad ac adeg cwblhau'r trosglwyddiad yn foddhaol.

(7) Os, ar ôl tri chynnig (a gofnodwyd yn briodol gan y person sy'n cyflwyno'r hysbysiad) i gyflwyno'r hysbysiad drwy ddefnyddio un dull penodol o drosglwyddo cyfathrebiad electronig, na ellir cyflwyno'r hysbysiad, gellir rhoi'r hysbysiad drwy ei gyflwyno i'r person y mae i'w roi iddo mewn unrhyw ddull arall o'r fath ag y mae iddo gyfeiriad priodol neu drwy unrhyw un o'r dulliau eraill y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) neu, yn ôl y digwydd, paragraff (3).

(8) Yn ddarostyngedig i baragraff (9), at ddibenion y rheoliad hwn, cyfeiriad priodol unrhyw berson y mae hysbysiad i'w roi iddo fydd

(a) os yw'r cyfryw berson—

(i) wedi darparu i'r person sy'n rhoi'r hysbysiad gyfeiriad ar gyfer cyflwyno hysbysiadau o dan Ddeddf 1991, ac eithrio hysbysiadau o dan adran 74 neu Atodlen 4B i'r Ddeddf honno, drwy ddefnyddio dull penodol o drosglwyddo cyfathrebiad electronig; a

(ii) nad yw wedi hysbysu'r olaf fod y cyfeiriad hwnnw wedi'i dynnu'n ôl at y diben hwnnw,

y cyfeiriad hwnnw o ran y dull hwnnw o drosglwyddo;

(b) os yw'r cyfryw berson wedi darparu i'r person sy'n rhoi'r hysbysiad gyfeiriad ar gyfer cyflwyno hysbysiadau o'r fath drwy'r post, y cyfeiriad hwnnw o ran cyflwyno drwy'r post,

(c) os yw'r cyfryw berson wedi darparu i'r person sy'n rhoi'r hysbysiad gyfeiriad ar gyfer cyflwyno hysbysiadau o'r fath drwy unrhyw ddull arall, y cyfeiriad hwnnw o ran y cyfryw ddull arall; ac

and for this purpose "legible in all material respects" means that the information contained in the notice is available to that person to no lesser extent than it would be if given by means of a notice in printed form.

(5) Subject to paragraph (7), from and including 1st April 2009 all notices required to be given under Part III of the 1991 Act by a street authority or a statutory undertaker, other than notices under Schedule 4B to that Act, must be exchanged between one street authority and another, one statutory undertaker and another and between a street authority and a statutory undertaker by using electronic communications in accordance with the condition set out in paragraph (4).

(6) Subject to section 98(2) (reckoning of periods), where an electronic communication is used for the purpose of serving a notice, then, unless the contrary is proved, the notice is deemed to be given on the day and at the time recorded by the transmitting apparatus as being the day and time of satisfactory completion of the transmission.

(7) Where, after three attempts (duly recorded by the person serving the notice) to effect service by using one particular method for transmitting an electronic communication, service cannot be effected, the notice may be given by serving it upon the person to whom it is to be given by any other such method for which there is a proper address or by any of the other means referred to in paragraph (1) or, as the case may be, paragraph (3).

(8) Subject to paragraph (9), for the purposes of this regulation, the proper address of any person to whom notice is to be given is —

(a) where such person —

(i) has provided the person giving the notice with an address for service of notices under the 1991 Act, other than notices under section 74 or Schedule 4B to that Act, by using a particular method for transmitting an electronic communication; and

(ii) has not notified the latter that the address is withdrawn for that purpose,

that address in relation to that method of transmission;

(b) where such person has provided the person giving the notice with an address for postal service of such notices, that address in relation to postal service,

(c) where such person has provided the person giving the notice with an address for service of such notices by any other means, that address in relation to such other means; and

(ch) fel arall

(i) yn achos corfforaeth, swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r gorfforaeth; a

(ii) mewn unrhyw achos arall, cyfeiriad hysbys diwethaf y cyfryw berson.

(9) Caiff person ddarparu cyfeiriadau gwahanol ar gyfer hysbysiadau gwahanol neu hysbysiadau o ddosbarthiadau gwahanol.

(10) Yn y rheoliad hwn—

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "*electronic communication*" yn adran 15(1) o Deddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**1**); ac

ystyr "cyfeiriad" ("*address*"), o ran dull penodol o drosglwyddo cyfathrebiad electronig, yw unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion y cyfryw ddull o drosglwyddo.

Dull cyflwyno copïau o hysbysiadau

7. Pan fo'n ofynnol rhoi copi o hysbysiad o dan Ran III o Ddeddf 1991, bydd darpariaethau rheoliad 6(3) i (10) yn gymwys yn yr un modd ag y maent yn gymwys i roi hysbysiad o dan y rheoliad hwnnw.

Hysbysiad ymlaen llaw o waith

8.—(1) At ddibenion adran 54, rhaid i ymgymerwr roi dim llai na thri mis o hysbysiad ymlaen llaw o waith pwysig ac eithrio pan fo gwaith o'r fath

(a) yn ddarostyngedig i hysbysiad o dan adran 55(1) a roddwyd yn unol â rheoliad 9(3) ac na roddwyd hysbysiad eisoes ohonynt o dan y paragraff hwn; neu

(b) wedi ei hysbysu o dan baragraff 2(1)(d) o Atodlen 3A i Ddeddf 1991.

(2) At ddibenion adran 54(4A), y cyfnod a ragnodir fydd 2 ddiwrnod yn dechrau gyda'r dyddiad cychwyn a bennir yn yr hysbysiad.

(3) At ddibenion adran 54(4B) y cyfnod a ragnodir fydd 15 niwrnod.

Hysbysiad o ddyddiad cychwyn gwaith

9.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff 2(6) o Atodlen 3A i Ddeddf 1991 a pharagraffau (3), (6) a (7) isod, at ddibenion adran 55, rhaid i ymgymerwr sy'n bwriadu dechrau gwneud gwaith stryd o gategori a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl rhoi cyfnod o hysbysiad o ran y categori hwnnw o ddim llai na'r hyn a ddangosir yng ngholofn 2.

(d) otherwise —

(i) in the case of a corporation, the registered or principal office of the corporation; and

(ii) in any other case, the last known address of such person.

(9) A person may provide different addresses for different notices or different classes of notice.

(10) In this regulation —

"address", in relation to a particular method for transmitting an electronic communication, means any number or address used for the purposes of such method of transmission; and

"electronic communication" has the meaning given in section 15(1) of the Electronic Communications Act 2000(**1**).

Manner of service of copies of notices

7. Where a copy of a notice is required to be given under Part III of the 1991 Act, the provisions of regulation 6(3) to (10) shall apply in the same manner as they apply to the giving of a notice under that regulation.

Advance notice of works

8.—(1) For the purposes of section 54, an undertaker must give not less than three months' advance notice of major works, except where such works are —

(a) the subject of a notice under section 55(1) given in accordance with regulation 9(3) and in respect of which no notice has already been given under this paragraph; or

(b) notified under paragraph 2(1)(d) of Schedule 3A to the 1991 Act.

(2) For the purposes of section 54(4A), the period prescribed is 2 days beginning with the starting date specified in the notice.

(3) For the purposes of section 54(4B), the period prescribed is 15 days.

Notice of starting date of works

9.—(1) Subject to paragraph 2(6) of Schedule 3A to the 1991 Act and paragraphs (3), (6) and (7) below, for the purposes of section 55, an undertaker proposing to begin to execute street works of a category specified in column 1 of the table below must give a period of notice in relation to that category of not less than that shown in column 2.

(**1**) 2000 p.7. Cafodd Adran 15(1) ei diwygio gan Ddeddf Cyfathrebu 2003 (p.21), adran 406(1) ac Atodlen 17, paragraff 158.

(**1**) 2000 c.7. Section 15(1) was amended by the Communications Act 2003 (c.21), section 406(1) and Schedule 17, paragraph 158.

Tabl

(1) *Categori o waith*	*(2)* *Y cyfnod*
Gwaith pwysig	10 diwrnod
Gwaith safonol	10 diwrnod
Mân weithiau	3 diwrnod

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 6(2) a pharagraffau (6) a (7) isod, at ddibenion adran 55, pan fo ymgymerwr yn bwriadu gwneud gwaith brys mewn unrhyw stryd, rhaid iddo roi hysbysiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a beth bynnag o fewn dwy awr o fod wedi dechrau ar y gwaith.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (6) a (7), pan fo ymgymerwr

(a) wedi cael hysbysiad o dan adran 58(1) yn cyfyngu ar waith stryd yn y dyfodol yn sgil gwaith stryd sylweddol;

(b) yn bwriadu dechrau gwneud

(i) gwaith stryd, ac eithrio gwaith disymwth, cyn i'r cyfyngiad ddod i rym; neu

(ii) gwaith stryd, ac eithrio gwaith a ganiateir o dan adran 58(5), sy'n golygu darnio rhan o'r briffordd y bydd y cyfyngiad yn gymwys iddo, neu dwnelu neu dyllu oddi tani, tra bo'r cyfyngiad yn weithredol; ac

(c) nad yw eisoes wedi rhoi hysbysiad o ran y gwaith hwnnw yn unol â pharagraff (1),

rhaid iddo, at ddibenion adran 55, roi hysbysiad o'r hyn y bwriada ei wneud ddim mwy na 20 o ddiwrnodau o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad o dan adran 58(1).

(4) At ddibenion adran 55(7), y cyfnod a ragnodir yw —

(a) 5 niwrnod pan fo'r hysbysiad yn ymwneud â gwaith pwysig neu waith safonol; a

(b) 2 ddiwrnod pan fo'n ymwneud â mân weithiau.

(5) At ddibenion adran 55(8), y cyfnod a ragnodir yw 2 ddiwrnod yn dechrau gyda'r dyddiad pan fydd yr hysbysiad yn peidio â bod yn effeithiol.

(6) Nid oes angen rhoi hysbysiad o dan adran 55(1) pan fo ymgymerwr yn bwriadu dechrau gwneud gwaith stryd

(a) mewn stryd nad yw'n stryd sy'n sensitif i draffig;

(b) ar droetffordd stryd sy'n sensitif i draffig ar adeg sy'n sensitif i draffig; neu

(c) mewn stryd sy'n sensitif i draffig, ar adeg nad yw'n sensitif i draffig,

Table

(1) *Category of works*	*(2)* *Period*
Major works	10 days
Standard works	10 days
Minor works	3 days

(2) Subject to regulation 6(2) and paragraphs (6) and (7) below, for the purposes of section 55, where an undertaker proposes to execute urgent works in any street, he or she must give notice as soon as reasonably practicable and in any event within two hours of the works having begun.

(3) Subject to paragraphs (6) and (7), where an undertaker —

(a) has been given notice under section 58(1) restricting future street works following substantial road works;

(b) proposes to begin to execute —

(i) street works, other than immediate works, before the restriction comes into effect; or

(ii) street works, other than works permitted under section 58(5), which involve breaking up the part of the highway to which the restriction will apply or tunnelling or boring under it, while it is in effect; and

(c) has not already given notice in relation to those works in accordance with paragraph (1),

he or she must, for the purposes of section 55, give notice of his or her proposals not more than 20 days from the date on which the notice under section 58(1) was published.

(4) For the purposes of section 55(7), the period prescribed is —

(a) 5 days where the notice relates to major works or standard works; and

(b) 2 days where it relates to minor works.

(5) For the purposes of section 55(8), the period prescribed is 2 days beginning with the date on which the notice ceases to have effect.

(6) No notice under section 55(1) is required where an undertaker proposes to begin to execute street works —

(a) in a street which is not a traffic-sensitive street;

(b) in the footway of a traffic-sensitive street at a traffic-sensitive time; or

(c) in a traffic-sensitive street, other than at a traffic-sensitive time,

os nad yw'r gwaith yn golygu darnio'r stryd neu dwnelu neu dyllu oddi tani.

(7) Nid yw'n ofynnol i ymgymerwr statudol roi hysbysiad o dan adran 55(1) i unrhyw berson y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo oni bai bod y cyfryw berson wedi gofyn am hysbysiad o'r fath.

(8) Mae is-baragraff (7) yn gymwys i —

(a) unrhyw ymgymerwr statudol sydd ag offer yn y stryd y mae'r gwaith yn debygol o effeithio arno; a

(b) unrhyw berson y byddai ganddo fel arall hawl i gael hysbysiad o'r fath yn rhinwedd fod ganddo yn y stryd ran o bibell wasanaeth yn gorwedd rhwng ffin y stryd a'r stopfalf ar y cyfryw bibell yn y stryd honno neu fod ganddo draen yn y stryd honno.

(9) Ym mharagraff (8) mae i "draen", "pibell wasanaeth " a "stopfalf" yr un ystyr ag sydd i "*drain*", "*service pipe*" a "*stopcock*" yn Neddf y Diwydiant Dwr 1991(**1**).

Y weithdrefn ar gyfer rhoi cyfarwyddiadau o dan adran 56 neu 56A

10.—(1) Rhaid i bob cyfarwyddyd o dan adran 56(1) neu 56A gael ei roi drwy roi i'r ymgymerwr gopi o'r hysbysiad sy'n ymwneud â'r gwaith a roddir gan yr ymgymerwr hwnnw yn unol â rheoliad 8, neu os nad oes hysbysiad o'r fath yn ofynnol, yn unol â rheoliad 9; gyda'r copi wedi ei ardystio â thelerau'r cyfarwyddyd.

(2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan adran 56(1A) gael ei roi drwy roi i'r ymgymerwr gopi o'r hysbysiad o ddechrau ar y gwaith a roddir gan yr ymgymerwr hwnnw o dan adran 74(5C); gyda'r copi wedi ei ardystio â thelerau'r cyfarwyddyd.

(3) O ran hysbysiad o dan reoliad 8 ni fydd cyfarwyddyd o dan adran 56(1) a'r cyntaf o unrhyw gyfarwyddiadau o dan adran 56A yn effeithiol os caiff ei roi fwy na mis ar ôl i'r awdurdod strydoedd gael yr hysbysiad.

(4) O ran hysbysiad yn unol â rheoliad 9(1) neu (2), cyfarwyddyd o dan adran 56(1) a'r cyntaf o unrhyw gyfarwyddiadau o dan adran 56 ni fydd yn effeithiol os caiff ei roi yn ddiweddarach na

(a) 5 niwrnod o'r dyddiad pan gaiff yr awdurdod strydoedd yr hysbysiad yn achos gweithiau pwysig neu waith safonol; a

(b) 2 ddiwrnod o'r dyddiad pan gaiff yr awdurdod strydoedd yr hysbysiad yn achos mân weithiau.

(**1**) 1991 p.56. Cafodd y diffiniad o "service pipe" yn adran 219(1) ei ddiwygio gan adran 92(6) o Ddeddf Dŵr 2003 (p.37). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

if the works do not involve breaking up the street or tunnelling or boring under it.

(7) A statutory undertaker is not required to give notice under section 55(1) to any person to whom this paragraph applies unless such person has requested such notice.

(8) Sub-paragraph (7) applies to —

(a) any statutory undertaker having apparatus in the street which is likely to be affected by the works; and

(b) any person who would otherwise be entitled to such notice solely by virtue of his or her having in the street part of a service pipe lying between the boundary of the street and the stopcock on such pipe in that street or his or her having a drain in that street.

(9) In paragraph (8) "drain", "service pipe" and "stopcock" have the same meaning as in the Water Industry Act 1991(**1**).

Procedure for giving directions under section 56 or 56A

10.—(1) Every direction under section 56(1) or 56A must be given by giving the undertaker a copy of the notice relating to the works given by that undertaker in accordance with regulation 8, or where no such notice is required, regulation 9; the copy being endorsed with the terms of the direction.

(2) A direction under section 56(1A) must be given by giving the undertaker a copy of the notice of the beginning of the works given by that undertaker under section 74(5C); the copy being endorsed with the terms of the direction.

(3) In relation to a notice under regulation 8 a direction under section 56(1) and the first of any directions under section 56A is of no effect if given more than one month after the receipt of the notice by the street authority.

(4) In relation to a notice pursuant to regulation 9(1) or (2), a direction under section 56(1) and the first of any directions under section 56A will be of no effect if given later than —

(a) 5 days from the date of receipt of the notice by the street authority in the case of major works or standard works; and

(b) 2 days from the date of its receipt by the street authority in the case of minor works.

(**1**) 1991 c.56. The definition of "service pipe" in section 219(1) was amended by section 92(6) of the Water Act 2003 (c.37). There are other amendments not relevant to these Regulations.

Cyfyngiadau ar waith yn sgil gwaith ffordd sylweddol

11.—(1) At ddibenion adran 58(1), ystyr gwaith ffyrdd sylweddol yw gwaith at ddibenion ffordd sy'n cynnwys ail adeiladu, lledu, altro lefel, rhoi wyneb newydd neu wyneb gwrth-lithro arbenigol ar y rhan o'r briffordd sydd dan sylw ac os caiff ei wneud

(a) ar lwybr troed, troetffordd, llwybr ceffylau neu drac beiciau

(i) sy'n ymestyn am fwy na 30 o fetrau o hyd parhaus; a

(ii) yn achos llwybr troed neu drac beiciau, sy'n golygu bod y lled sydd ar gael i gerddwyr neu feicwyr, yn ôl y digwydd, yn cael ei leihau o fwy na dwy ran o dair; neu

(b) ar y gerbytffordd —

(i) sy'n ymestyn am fwy na 30 o fetrau o hyd parhaus; a

(ii) sy'n golygu bod y defnydd gan gerbydau o'r gerbytffordd yn cael ei wahardd neu bod y lled o'r gerbytffordd sydd ar gael ar gyfer traffig yn cael ei leihau o fwy nag un rhan o dair.

(2) At ddibenion adran 58(1), y cyfnod rhagnodedig fydd —

(a) 5 mlynedd o ran gwaith ffyrdd sylweddol sy'n golygu ail adeiladu;

(b) 3 blynedd o ran gwaith ffyrdd sylweddol sy'n golygu rhoi wyneb newydd ar y briffordd neu altro lefel y briffordd;

(c) 1 flwyddyn o ran unrhyw waith ffyrdd sylweddol arall sy'n cael ei wneud mewn stryd sy'n sensitif i draffig neu mewn stryd yng nghategori ffordd 0, 1 neu 2 nad yw'n stryd sy'n sensitif i draffig; ac

(ch) 6 mis o ran unrhyw waith ffyrdd sylweddol arall sy'n cael ei wneud mewn stryd yng nghategori ffordd 3 neu 4 nad yw'n stryd sy'n sensitif i draffig.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan adran 58(1) sy'n ymwneud â chyfyngiad arfaethedig ar waith stryd yn sgil gwaith ffordd sylweddol gael ei gyhoeddi gan yr awdurdod strydoedd perthnasol ar unrhyw wefan a gynhelir gan yr awdurdod at y diben o ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd.

(4) At ddibenion adran 58(2), y cyfnod a ragnodir yw 3 mis.

(5) Yn ychwanegol at y rheini y mae'n rhaid rhoi copi o hysbysiad iddynt yn rhinwedd adran 58(3), rhodder copi hefyd

(a) i feddiannydd unrhyw fangre sydd â ffryntiad i'r rhan o'r briffordd y mae'r cyfyngiad arfaethedig yn ymwneud â hi; a

Restriction on works following substantial road works

11.—(1) For the purposes of section 58(1), substantial road works means works for road purposes which comprise a reconstruction, widening, alteration in the level, resurfacing or specialist non-skid surface dressing of the part of the highway concerned and which if carried out —

(a) in a footpath, footway, bridleway or cycle track —

(i) extend for more than 30 metres of continuous length; and

(ii) in the case of a footpath or cycle track, result in the width available for pedestrians or cyclists, as the case may be, being reduced by more than two-thirds; or

(b) in the carriageway —

(i) extend for more than 30 metres of continuous length; and

(ii) result in the use by vehicles of the carriageway being prohibited or the width of carriageway available for vehicular traffic being reduced by more than one-third.

(2) For the purposes of section 58(1), the prescribed period is —

(a) 5 years in relation to substantial road works involving reconstruction;

(b) 3 years in relation to substantial road works involving resurfacing or an alteration in the level of the highway;

(c) 1 year in relation to any other substantial road works carried out in a traffic-sensitive street or a street in road category 0, 1 or 2 which is not a traffic-sensitive street; and

(d) 6 months in relation to any other substantial road works carried out in a street in road category 3 or 4 which is not a traffic-sensitive street.

(3) A notice under section 58(1) relating to a proposed restriction on street works following substantial road works must be published by the street authority concerned on any website maintained by the authority for the purpose of providing information to the public.

(4) For the purposes of section 58(2), the period prescribed is 3 months.

(5) In addition to those to whom a copy of the notice must be given by virtue of section 58(3), a copy must also be given to —

(a) the occupier of any premises which have a frontage onto the part of the highway to which the proposed restriction relates; and

(b) i unrhyw berson arall sydd wedi gwneud cais ysgrifenedig am gopi o unrhyw hysbysiad o'r fath.

(6) Os yw gwaith stryd yn sgil gwaith stryd sylweddol wedi'i gyfyngu gan hysbysiad o dan adran 58(1), bydd yr hysbysiad hwnnw yn peidio â bod yn effeithiol os nad yw'r gwaith stryd y mae'n ymwneud ag ef wedi ei ddechrau'n sylweddol o fewn chwe mis i'r diweddaraf o—

(a) y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y bwriedir dechrau'r gwaith arno; neu

(b) cwblhad pob gwaith a wnaed o ganlyniad i unrhyw hysbysiad a roddwyd i awdurdod strydoedd yn unol â rheoliad 9(3).

(7) At ddibenion adran 58(5), yn ychwanegol at yr achosion a bennir yn yr is-adran honno, caiff ymgymerwr wneud unrhyw waith brys neu unrhyw waith arall a osodir ym mharagraff (8).

(8) Y gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (7) yw gwaith stryd

(a) nad yw'n golygu darnio'r stryd;

(b) y mae angen ei wneud

(i) i ymateb i gais am wasanaeth newydd neu gais i gyflenwi cwsmer nas derbyniwyd ar adeg pan oedd yn ymarferol i'r gwaith gael ei wneud cyn y dyddiad y dechreuodd y cyfyngiad arno; a

(ii) sy'n cael ei wneud fwy nag 19 o ddiwrnodau o'r dyddiad hwnnw;

(c) sy'n cael ei wneud

(i) o dan reoliad 16(3)(b) o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosodiadau a Defnydd) 1998(**1**) (mesuryddion cyntaf)

(ii) i gydymffurfio â hysbysiad gwella o dan adran 21 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974(**2**) (hysbysiadau gwella); neu

(iii) o ganlyniad i hysbysiad gwahardd o dan adran 22 o'r Ddeddf honno (hysbysiadau gwahardd); neu

(ch) y mae ei angen

(i) i gydymffurfio â rhaglen a gymeradwywyd o dan reoliad 13A o Reoliadau Diogelwch Piblinellau 1996(**3**) (piblinellau haearn); a

(ii) na ellid bod wedi'i ddynodi cyn i'r cyfyngiad ddechrau.

(b) any other person who has made a written request asking for a copy of any such notice.

(6) Where street works following substantial road works are restricted by a notice under section 58(1), that notice ceases to be effective if the road works to which it relates are not substantially begun within six months of the later of —

(a) the date specified in the notice as being the date on which it is proposed to begin the works; or

(b) the completion of all works executed as a consequence of any notice given to a street authority in accordance with regulation 9(3).

(7) For the purpose of section 58(5), in addition to the cases specified in that subsection, an undertaker may execute urgent works or any other works set out in paragraph (8).

(8) The works referred to in paragraph (7) are street works —

(a) not involving breaking up the street;

(b) that are —

(i) required to respond to a request for a new service or supply to a customer which was not received at a time when it was practicable for the works to be done before the date on which the restriction began; and

(ii) carried out more than 19 days from that date;

(c) carried out —

(i) under regulation 16(3)(b) of the Gas Safety (Installation and Use) Regulations 1998(**1**) (primary meters);

(ii) to comply with an improvement notice under section 21 of the Health and Safety at Work etc Act 1974(**2**) (improvement notices); or

(iii) as a consequence of a prohibition notice under section 22 of that Act (prohibition notices); or

(d) that —

(i) are required to comply with a programme approved under regulation 13A of the Pipelines Safety Regulations 1996(**3**) (iron pipelines); and

(ii) could not have been identified before the restriction began.

(**1**) O.S. 1998/2451.

(**2**) 1974 p.37. Cafodd adran 22(1) a (2) eu diwygio, ac amnewidwyd adran 22(4) gan Ddeddf Diogelu Defnyddwyr 1987, adran 3 ac Atodlen 3, paragraff (2).

(**3**) O.S. 1996/825 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/2563.

(**1**) S.I. 1998/2451.

(**2**) 1974 c.37. Section 22(1) and (2) were amended, and section 22(4) substituted, by the Consumer Protection Act 1987, section 3 and Schedule 3, paragraph (2).

(**3**) S.I. 1996/825 as amended by S.I. 2003/2563.

(9) At ddibenion adran 58(7), penderfynir unrhyw gwestiwn sy'n codi ynghylch a yw awdurdod strydoedd yn dal cydsyniad yn ôl yn afresymol drwy gyflafareddu.

(10) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "ail adeiladu" ("*reconstruction*") yw symud ymaith rywfaint neu'r cyfan o'r haenau amrywiol sy'n gwneud palmant ffordd a gosod palmant ffordd yn eu lle;

mae i "llwybr beiciau" yr un ystyr ag sydd i "*cycle track*" yn adran 329(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**); ac

ystyr "rhoi wyneb newydd" ("*resurfacing*") yw symud ymaith arwynebedd rhedegol cerbytffordd a gosod un arall yn ei le sy'n adfer priodoldeb a'r gallu i wrthsefyll llithro i'r arwynebedd.

Cyfyngiadau ar waith yn sgil gwaith stryd sylweddol

12.—(1) At ddibenion Atodlen 3A i Ddeddf 1991, ystyr gwaith stryd sylweddol yw gwaith pwysig.

(2) Rhaid i'r cyfnod a ragnodir o dan baragraff 2(2) o'r Atodlen honno beidio â bod yn llai na 20 o ddiwrnodau o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad.

(3) Rhaid i'r awdurdod stryd perthnasol gyhoeddi hysbysiad o dan baragraff 2 i'r Atodlen honno ynghylch cyfyngiad arfaethedig ar waith stryd yn sgil gwaith stryd sylweddol ar unrhyw wefan a gynhelir gan yr awdurdod at y diben o ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd.

(4) Yn ychwanegol at y rheini y mae'n rhaid rhoi copi o hysbysiad iddynt yn rhinwedd paragraff 2(4) o'r Atodlen honno, rhaid rhoi copi hefyd

(a) i feddiannydd unrhyw fangre sydd â ffryntiad i'r rhan o'r briffordd y mae'r cyfyngiad arfaethedig yn ymwneud â hi; a

(b) i unrhyw berson arall sydd wedi gwneud cais ysgrifenedig am gopi o unrhyw hysbysiad o'r fath.

(5) Rhaid i hysbysiad gan ymgymerwr o dan baragraff 2(1)(d) o Atodlen 3A o waith stryd arfaethedig a chyfarwyddyd sy'n cyfyngu ar wneud gwaith o dan baragraff 4 o'r Atodlen honno fod yn y ffurf a geir yn y Fanyleb Dechnolegol, neu mewn ffurf gyffelyb iddi, a rhaid iddi gynnwys gwybodaeth o'r fath sy'n berthnasol i'r hysbysiad neu i'r cyfarwyddyd, yn ôl y digwydd, yn unol â'r fanyleb honno.

(6) Mae darpariaethau rheoliad 6(3) i (10) yn gymwys i wneud hysbysiad o'r fath yn yr un modd ag y maent yn gymwys i roi hysbysiad o dan y rheoliad hwnnw.

(**1**) 1980 p.66; cafodd adran 329(1) ei diwygio gan adran 1(1) o Ddeddf Llwybrau Beiciau 1984 (p.38) a chan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Canlyniadol) 1988 (p.54) ac Atodlen 3, paragraff 21(2).

(9) For the purposes of section 58(7), any question as to whether the withholding of consent by a street authority is unreasonable is to be settled by arbitration.

(10) In this regulation —

"cycle track" has the same meaning as in section 329(1) of the Highways Act 1980(**1**);

"reconstruction" means the removal of some or all of the various layers that make up a road pavement and their replacement; and

"resurfacing" means the removal of the running surface of a carriageway and its replacement to restore surface integrity and skid resistance.

Restriction on works following substantial street works

12.—(1) For the purposes of Schedule 3A to the 1991 Act, substantial street works means major works.

(2) The period prescribed under paragraph 2(2) of that Schedule must be not less than 20 days from the date on which the notice is published.

(3) A notice under paragraph 2 of that Schedule relating to a proposed restriction on street works following substantial street works must be published by the street authority concerned on any website maintained by the authority for the purpose of providing information to the public.

(4) In addition to those to whom a copy of the notice must be given under paragraph 2(4) of that Schedule, a copy must also be given to —

(a) the occupier of any premises which have a frontage onto the part of the highway to which the proposed restriction relates; and

(b) any other person who has made a written request asking for a copy of any such notice.

(5) Notification by an undertaker under paragraph 2(1)(d) of Schedule 3A of proposed street works and a direction restricting the execution of works under paragraph 4 of that Schedule must be in, or to the like effect as, the form contained in the Technical Specification and must contain such information as is relevant to the notification or direction, as the case may be, in accordance with that specification.

(6) The provisions of regulation 6(3) to (10) apply to the making of such notification in the same manner as they apply to the giving of a notice under that regulation.

(**1**) 1980 c.66; section 329(1) was amended by section 1(1) of the Cycle Tracks Act 1984 (c.38) and by the Road Traffic (Consequential Provisions) Act 1988 (c.54), section 4 and Schedule 3, paragraph 21(2).

(7) Rhaid rhoi cyfarwyddyd o dan baragraff 4 o'r Atodlen honno drwy ei gyhoeddi ar unrhyw wefan a gynhelir gan yr awdurdod strydoedd at y diben o ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd.

(8) Yn ychwanegol at yr achos a bennir ym mharagraff 3(5)(a) o Atodlen 3A i Ddeddf 1991, nid yw paragraff 3(4) o'r Atodlen honno yn gymwys yn yr achosion a osodir ym mharagraff (11) isod pan na roddwyd hysbysiad blaenorol o dan adran 54 neu 55, neu baragraff 2(1)(d) o'r Atodlen honno o ran y gwaith y cyfeirir ato.

(9) At ddibenion paragraff 4(4) o'r Atodlen honno, y cyfnod rhagnodedig fydd

(a) 1 flwyddyn o ran strydoedd sy'n sensitif i draffig a strydoedd yng nghategori ffordd 0, 1 neu 2 nad ydynt yn strydoedd sy'n sensitif i draffig; a

(b) 6 mis o ran strydoedd yng nghategori ffordd 3 neu 4 nad ydynt yn strydoedd sy'n sensitif i draffig.

(10) Yn ychwanegol at yr achosion a bennir ym mharagraff 5(2) o'r Atodlen honno, nid yw paragraff 5(1) o'r Atodlen honno yn gymwys yn yr achosion a osodir yn y paragraff canlynol.

(11) Yr achosion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (8) a (10) yw'r achosion pan fo ymgymerwr yn gwneud gwaith brys neu unrhyw waith arall a osodir ym mharagraff (12).

(12) Y gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (11) yw gwaith stryd

(a) nad yw'n golygu darnio'r stryd;

(b) y mae—

(i) angen ei wneud i ymateb i gais am wasanaeth newydd neu gais i gyflenwi cwsmer nas derbyniwyd ar adeg pan oedd yn ymarferol i'r gwaith gael ei wneud cyn y dyddiad y dechreuodd y cyfyngiad arno; a

(ii) yn cael ei wneud fwy nag 19 o ddiwrnodau o'r dyddiad hwnnw;

(c) sy'n cael ei wneud

(i) o dan reoliad 16(3)(b) o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosodiadau a Defnydd) 1998;

(ii) i gydymffurfio â hysbysiad gwella o dan adran 21 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; neu

(iii) o ganlyniad i hysbysiad gwahardd o dan adran 22 o'r Ddeddf honno; neu

(ch) y mae ei angen—

(i) i gydymffurfio â rhaglen a gymeradwywyd o dan reoliad 13A o Reoliadau Diogelwch Piblinellau 1996; a

(7) A direction under paragraph 4 of that Schedule must be given by publishing it on any website maintained by the street authority for the purpose of providing information to the public.

(8) In addition to the case specified in paragraph 3(5)(a) of Schedule 3A to the 1991 Act, paragraph 3(4) of that Schedule does not apply in the cases set out in paragraph (11) below where no prior notification has been given under section 54 or 55, or paragraph 2(1)(d) of that Schedule, in relation to the works referred to.

(9) For the purposes of paragraph 4(4) of that Schedule, the prescribed period is —

(a) 1 year in relation to traffic-sensitive streets and streets in road category 0, 1 or 2 which are not traffic-sensitive streets; and

(b) 6 months in relation to streets in road category 3 or 4 which are not traffic-sensitive streets.

(10) In addition to the cases specified in paragraph 5(2) of that Schedule, paragraph 5(1) of that Schedule does not apply in the cases set out in the following paragraph.

(11) The cases referred to in paragraphs (8) and (10) are where an undertaker executes urgent works or any other works set out in paragraph (12).

(12) The works referred to in paragraph (11) are street works —

(a) not involving breaking up the street;

(b) that are —

(i) required to respond to a request for a new service or supply to a customer which was not received at a time when it was practicable for the works to be done before the date on which the restriction began; and

(ii) carried out more than 19 days from that date;

(c) carried out —

(i) under regulation 16(3)(b) of the Gas Safety (Installation and Use) Regulations 1998;

(ii) to comply with an improvement notice under section 21 of the Health and Safety at Work etc Act 1974; or

(iii) as a consequence of a prohibition notice under section 22 of that Act; or

(d) that —

(i) are required to comply with a programme approved under regulation 13A of the Pipelines Safety Regulations 1996; and

(ii) na ellid bod wedi'i ddynodi cyn i'r cyfyngiad ddechrau.

(13) At ddibenion paragraff 5(3) o Atodlen 3A i Ddeddf 1991, penderfynir unrhyw gwestiwn sy'n codi ynghylch a yw awdurdod strydoedd yn dal cydsyniad yn ôl yn afresymol drwy gyflafareddu.

Esemptiadau ac addasiadau

13.—(1) Esemptir rheolwyr strydoedd rhag darpariaethau adran 53(1).

(2) O ran stryd nad yw'n briffordd a gynhelir —

(a) mae adrannau 53 a 80 a rheoliad 4 i'w haddasu fel mai'r awdurdod priffyrdd lleol fydd yr awdurdod strydoedd at ddibenion y darpariaethau hynny. a

(b) ni fydd adran 61 yn gymwys pan fo'n ofynnol cael cydsyniad i ddarnio'r stryd neu i agor y stryd o dan unrhyw ddeddfiad arall.

Dynodi strydoedd yn strydoedd a warchodir

14.—(1) Rhaid i awdurdod strydoedd beidio â dynodi stryd yn stryd a warchodir o dan adran 61 oni bai —

(a) bod y stryd yn cyflenwi angen traffig strategol penodol;

(b) bod y stryd yn ddarostyngedig i lif mor uchel a chyson o draffig fel na fyddai ei dynodi yn stryd sy'n sensitif i draffig yn ddigonol i osgoi achosi amhariad difrifol ar draffig gan waith stryd; a

(c) bod yna ddewis amgen rhesymol i osod offer ymgymerwyr y gellid ei osod yn gyfreithlon ar y stryd.

(2) Gosodir y weithdrefn ar gyfer gwneud dynodiad o'r fath neu ei thynnu'n ôl yn yr Atodlen.

(3) Rhaid i'r wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdod strydoedd sicrhau ei bod ar gael o ran pob stryd a ddynodir ganddo o bryd i'w gilydd yn stryd a warchodir gynnwys—

(a) dyddiad y dynodiad;

(b) manylion am y stryd mewn digon o fanylder i'w galluogi i gael ei dynodi; ac

(c) manylion am bob cydsyniad i osod offer yn y stryd.

Dynodi strydoedd yn rhai ag iddynt anawsterau peirianyddol arbennig

15.—(1) Y meini prawf ar gyfer dynodi stryd yn un ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig o dan adran 63 yw

(ii) could not have been identified before the restriction began.

(13) For the purposes of paragraph 5(3) of Schedule 3A to the 1991 Act, any question as to whether the withholding of consent by a street authority is unreasonable will be settled by arbitration.

Exemptions and adaptations

13.—(1) Street managers are exempted from the provisions of section 53(1).

(2) In relation to a street which is not a maintainable highway —

(a) sections 53 and 80 and regulation 4 are adapted so that, for the purposes of those provisions, the local highway authority are the street authority; and

(b) section 61 does not apply where consent to the breaking up or opening of the street is required under any other enactment.

Designation of streets as protected

14.—(1) A street authority must not designate a street as protected under section 61 unless —

(a) the street fulfils a specific strategic traffic need;

(b) the street is subject to such high and constant traffic flows that designation as a traffic-sensitive street would not be sufficient to avoid serious disruption to traffic caused by street works; and

(c) there exists a reasonable alternative for placing undertakers' apparatus which could lawfully be placed in the street.

(2) The procedure for making or withdrawing such a designation is set out in the Schedule.

(3) The information to be made available by the street authority in respect of each street for the time being designated by them as protected must include —

(a) the date of designation;

(b) particulars of the street in sufficient detail to enable it to be identified; and

(c) particulars of all consents to the placing of apparatus in the street.

Designation of streets as having special engineering difficulties

15.—(1) The criteria for designating a street as having special engineering difficulties under section 63 are —

(a) yn achos stryd y mae strwythur peirianyddol yn gysylltiedig â hi fod ei briodoldeb a'i ddiogelwch sylfaenol yn dibynnu ar fod mesurau arbennig yn cael eu cymryd wrth gynllunio a gwneud gwaith stryd yn y rhan berthnasol o'r stryd er mwyn osgoi methiant difrifol o ran y strwythur dan sylw; neu

(b) yn achos unrhyw stryd arall, fod yna nodwedd beirianyddol benodol wedi'i dynodi yn un sylfaenol i strwythur a phriodoldeb y stryd yn ei chyfanrwydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fesurau arbennig gael eu cymryd wrth gynllunio a gwneud gwaith stryd er mwyn osgoi methiant difrifol o ran y stryd yn ei chyfanrwydd.

(2) Gosodir y weithdrefn ar gyfer gwneud dynodiad o'r fath neu ei dynnu'n ôl yn yr Atodlen.

(3) Rhaid i'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'r awdurdod strydoedd sicrhau ei bod ar gael o ran pob stryd a ddynodir ganddo o bryd i'w gilydd yn stryd ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig gynnwys —

(a) dyddiad y dynodiad;

(b) manylion am y stryd mewn digon o fanylder i'w galluogi i gael ei dynodi;

(c) y nodweddion sy'n cyfiawnhau'r dynodiad; ac

(ch) manylion yr awdurdod neu'r ymgymerwr sydd â buddiant yn y stryd.

Dynodi strydoedd yn rhai sy'n sensitif i draffig

16.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (5), dim ond os bodlonir un neu fwy o'r meini prawf a osodir ym mharagraff (2) y caiff awdurdod strydoedd ddynodi stryd yn un sy'n sensitif i draffig o dan adran 64.

(2) Y meini prawf y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw fod y stryd

(a) yn un y mae'r awdurdod strydoedd yn amcangyfrif fod y llif traffig arni yn fwy na 500 o gerbydau'r awr ar bob lôn o'r gerbytffordd gan anwybyddu lonydd i fysiau neu i feiciau;

(b) yn ffordd ddwyffordd ag iddi un gerbytffordd gyda'r gerbytffordd honno yn llai na 6.5 metr o led, a chyda llif y traffig arni i'r naill gyfeiriad a'r llall heb fod yn llai na 600 o gerbydau yr awr;

(c) yn disgyn o fewn ardal a gwmpesir gan Orchymyn o ran taliadau tagfeydd a wnaed o dan adran 169 o Ddeddf Drafnidiaeth 2000(**1**);

(ch) yn un y mae mwy na 25% o'r llif traffig i'r naill gyfeiriad a'r llall arni yn gerbydau masnachol trymion;

(a) in the case of a street with which an engineering structure is associated, that its fundamental integrity and safety is dependent upon special measures being taken in the planning and execution of street works in the relevant part of the street in order to avoid serious failure of the structure concerned; or

(b) in the case of any other street, that there is a specific engineering feature identified as fundamental to the structure and integrity of the street as a whole requiring special measures to be taken in the planning and execution of street works in order to avoid serious failure of the street as a whole.

(2) The procedure for making or withdrawing such a designation is set out in the Schedule.

(3) The information to be made available by the street authority in respect of each street for the time being designated by them as having special engineering difficulties must include —

(a) the date of designation;

(b) particulars of the street in sufficient detail to enable it to be identified;

(c) the features which justify the designation; and

(d) particulars of the authority or undertaker with an interest in the street.

Designation of streets as traffic-sensitive

16.—(1) Subject to paragraphs (3) and (5), a street authority may only designate a street as traffic-sensitive under section 64 if one or more of the criteria set out in paragraph (2) are met.

(2) The criteria referred to in paragraph (1) are that the street —

(a) is one on which at any time the street authority estimate the traffic flow to be greater than 500 vehicles per hour per lane of carriageway, disregarding bus or cycle lanes;

(b) is a single carriageway two-way road, the carriageway of which is less than 6.5 metres wide, having a traffic flow in both directions of not less than 600 vehicles per hour;

(c) falls within an area covered by an Order in respect of congestion charges made under section 169 of the Transport Act 2000(**1**);

(d) is one on which more than 25% of the traffic flow in both directions consists of heavy commercial vehicles;

(**1**) 2000 (p.38).

(**1**) 2000 (c.38).

(d) yn un y mae'r llif traffig arni i'r naill gyfeiriad a'r llall yn cynnwys mwy nag wyth o fysiau yr awr;

(dd) yn un sydd wedi'i dynodi gan yr awdurdod priffyrdd lleol, fel rhan o'i raglen cynnal a chadw dros y gaeaf, yn un y mae gofyn ei thrin, neu y mae gofyn trin unrhyw ran ohoni, â halen neu gemegau eraill, pan ddisgwylir i'r dymheredd fod yn isel, er mwyn osgoi rhew rhag ffurfio;

(e) o fewn 100 o fetrau i gyffordd â signalau critigol neu i system gylchdro neu gylchfan gritigol;

(f) yn un y mae'r llif traffig o gerddwyr arni yn o leiaf 1300 o bobl yr awr, am bob metr o led y droetffordd; neu

(ff) ar lwybr twristiaid neu mewn ardal lle cynhelir digwyddiadau rhyngwladol, neu genedlaethol, neu ddigwyddiadau mawr arwyddocaol o bwys lleol.

(3) Dim ond ar yr adegau ac ar y dyddiadau pan fo un neu fwy nag un o'r meini prawf a osodir ym mharagraff (2) yn gymwys y caiff awdurdod strydoedd ddynodi stryd yn stryd sy'n sensitif i draffig yn unol â pharagraff (1).

(4) Gosodir y weithdrefn ar gyfer gwneud dynodiad o dan baragraff (1) neu ar gyfer ei dynnu'n ôl yn yr Atodlen.

(5) Caiff awdurdod strydoedd, er gwaethaf paragraffau (1) i (3), ddynodi stryd yn stryd sy'n sensitif i draffig gyda cytundeb mwyafrif yr ymgymerwyr y mae'n hysbys iddo fod ganddynt offer yn y stryd.

(6) Rhaid i'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'r awdurdod strydoedd sicrhau ei bod ar gael o ran pob stryd a ddynodir ganddo o bryd i'w gilydd yn stryd sy'n sensitif i draffig gynnwys—

(a) dyddiad y dynodiad;

(b) manylion am y stryd mewn digon o fanylder i'w galluogi i gael ei dynodi; ac

(c) yn achos dynodiad cyfyngedig, yr adegau o'r dydd, y diwrnodau, y cyfnodau neu'r achlysuron pan fo'r dynodiad yn gymwys.

(7) Yn y rheoliad hwn—

mae i "bws" yr un ystyr ag sydd i "*bus*" yn rheoliad 22(2) o Reoliadau 2002;

mae i'r ymadrodd "cerbyd masnachol trwm" yr un ystyr ag sydd i'r ymadrodd "*heavy commercial vehicle*" yn adran 138 o Ddeddf 1984;

ystyr "cyffordd â signalau critigol" ("*critical signalised junction*") yw cyffordd â signalau traffig, pan nad oes gwaith stryd neu waith at ddibenion ffyrdd yn digwydd yno, a phan nad yw'r

(e) is one on which the traffic flow in both directions includes more than eight buses per hour;

(f) is designated by the local highway authority, as part of its winter maintenance programme, as one requiring the treatment of any part of it with salt or other chemicals, when low temperatures are expected, to prevent the formation of ice;

(g) is within 100 metres of a critical signalised junction or a critical gyratory or roundabout system;

(h) has a pedestrian traffic flow of at least 1300 people per hour, per metre width of footway; or

(i) is on a tourist route or within an area where international, national or significant major local events take place.

(3) A street authority may only designate a street as traffic-sensitive in accordance with paragraph (1) for the times and on the dates when one or more of the criteria set out in paragraph (2) apply.

(4) The procedure for making or withdrawing a designation under paragraph (1) is set out in the Schedule.

(5) A street authority may, notwithstanding paragraphs (1) to (3), designate a street as traffic-sensitive with the agreement of the majority of statutory undertakers whom they know to have apparatus in the street.

(6) The information to be made available by the street authority in respect of each street for the time being designated by them as traffic-sensitive must include —

(a) the date of designation;

(b) particulars of the street in sufficient detail to enable it to be identified; and

(c) in the case of a limited designation, the times of day, days, periods or occasions when the designation applies.

(7) In this regulation —

"bus" has the same meaning as in regulation 22(2) of the 2002 Regulations;

"bus lane" and "cycle lane" have the same meaning as in regulation 4 of those Regulations;

"critical signalised junction" means a traffic signal junction at which, in the absence of street works or works for road purposes and at times when the exist is not blocked, no less than 5 per cent of peak hour vehicles on average fail to clear the junction on the first green signal;

allanfa wedi'i chau, lle nad oes dim llai na 5 y cant o'r cerbydau ar yr oriau brig, yn methu mynd drwy'r gyffordd ar y golau gwyrdd cyntaf;

mae i'r ymadroddion "lôn i fysiau" a "lôn i feiciau" yr un ystyr ag sydd i'r ymadroddion "*bus lane*" a "cycle lane" yn Rheoliad 4 o'r Rheoliadau hynny;

ystyr "oriau brig" ("*peak hour*") yw rhwng 7.30am a 9.30am a rhwng 3.30pm a 7.00pm ar y diwrnod perthnasol; ac

ystyr "system gylchdro neu gylchfan gritigol" ("*critical gyratory or roundabout system*") pan nad oes gwaith stryd neu waith at ddibenion ffyrdd yn digwydd yno, lle nad oes dim llai na 5 y cant o'r cerbydau ar yr oriau brig yn cael eu dal yn ôl o fwy na 20 eiliad ar gyfartaledd.

Addasu adran 70(3) a (4A)

17.—(1) Addesir Adran 70 (dyletswydd ymgymerwr i adfer) (yn ei gymhwysiad o ran Cymru) fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3) a (4) yn lle "7" rhodder "10".

Hysbysiad o waith adfer

18.—(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad a roddir gan ymgymerwr i'r awdurdod strydoedd yn unol ag—

(a) adran 70(3) fod gwaith adfer wedi'i gwblhau; neu

(b) adran 70(4A) fod gwaith adfer parhaol wedi'i gwblhau,

roi'r wybodaeth ynglyn â'r gwaith adfer a osodir ym mharagraff (2).

(2) Yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) yw—

(a) pwynt cyfeiriadol ar gyfer—

(i) canol unrhyw waith adfer nad yw'n hwy na 10 metr o hyd; a

(ii) pob pen i unrhyw waith adfer sy'n hwy na 10 metr o hyd;

(b) mesuriadau'r gwaith adfer;

(c) dyddiad cwblhau'r gwaith adfer; ac

(ch) y dull a ddefnyddiwyd i wneud y gwaith adfer.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "pwynt cyfeiriol" ("*reference point*") yw pwynt cyfeiriol grid Cenedlaethol yr Arolwg Ordnans wedi'i nodi o fewn un metr.

"critical gyratory or roundabout system" means a gyratory or roundabout system where, in the absence of street works or works for road purposes, no less than 5 per cent of peak hour vehicles on average are delayed by more than 20 seconds;

"heavy commercial vehicle" has the meaning given by section 138 of the 1984 Act; and

"peak hour" means between 7.30 am and 9.30 am and between 3.30 pm and 7.00 pm on the relevant day.

Modification of section 70(3) and (4A)

17.—(1) Section 70 (duty of undertaker to reinstate) is modified (in its application as respects Wales) as follows.

(2) In subsections (3) and (4A) for "7" substitute "10".

Notification of reinstatement

18.—(1) Any notice given by an undertaker to the street authority in accordance with —

(a) section 70(3) that a reinstatement has been completed; or

(b) section 70(4A) that a permanent reinstatement has been completed,

must give the information about the reinstatement set out in paragraph (2).

(2) The information referred to in paragraph (1) is —

(a) a reference point for —

(i) the centre of any reinstatement that does not exceed 10 metres in length; and

(ii) each end of any reinstatement that exceeds 10 metres in length;

(b) the dimensions of the reinstatement;

(c) the date on which the reinstatement was completed; and

(d) the method of reinstatement.

(3) In paragraph (2) "reference point" means an Ordnance Survey National grid reference point to a resolution of one metre.

Trefniadau trosiannol

19. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i waith stryd yng Nghymru y rhoddodd ymgymerwr hysbysiad ohono o dan adran 54(1), 55(1) neu 57 cyn y dyddiad y daw i rym arno ac mae Rheoliadau Gwaith Stryd Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) 1992 yn parhau i fod yn effeithiol o ran y gwaith hwnnw megis petaent heb gael eu datgymhwyso.

Transitional arrangements

19. These Regulations do not apply to street works in Wales in respect of which an undertaker has given a notice under section 54(1), 55(1) or 57 before the date on which they come into force and the Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) Regulations 1992 continue to have effect in relation to those works, as if they had not been disapplied.

Ieuan Wyn Jones

Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

17 Ionawr 2008

Minister for the Economy and Transport, one of the Welsh Ministers

17 January 2008

YR ATODLEN

Rheoliadau 14, 15 a 16

GWEITHDREFNAU AR GYFER DYNODIADAU O DAN ADRANNAU 61, 63 A 64 A THYNNU DYNODIADAU O'R FATH YN ÔL

RHAN 1

Dynodi strydoedd yn strydoedd a warchodir

1. Cyn dynodi stryd yn stryd a warchodir o dan adran 61, rhaid i'r awdurdod strydoedd gyhoeddi hysbysiad o'u bwriad i wneud y dynodiad ar unrhyw wefan a gynhelir gan yr awdurdod at y diben o ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd.

2. Rhaid i'r hysbysiad bennu cyfnod nad yw'n llai na mis o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad, y caniateir gwneud gwrthwynebiadau o'i fewn.

3. Rhaid i'r awdurdod strydoedd roi copi o'r hysbysiad hwnnw, heb fod yn ddiweddarach na dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad,—

(a) i bob ymgymerwr y mae'r awdurdod yn gwybod ei fod yn gweithio yn ei ardal, neu sydd wedi rhoi hysbysiad, naill ai o dan adran 54 neu o dan adran 55 ei fod yn bwriadu gwneud gwaith stryd yn ei ardal;

(b) i bob awdurdod lleol (ac eithrio'r awdurdod strydoedd) lle mae unrhyw stryd y mae'r dynodiad arfaethedig yn ymwneud â hi wedi'i lleoli;

(c) i feddianwyr neu feddianwyr honedig unrhyw dir sy'n gyffiniol â'r stryd;

(ch) i unrhyw Weithrediaeth Trafnidiaeth i Deithwyr neu unrhyw awdurdod trafnidiaeth arall dros yr ardal lle mae'r stryd wedi'i lleoli;

(d) i Brif Swyddog yr Heddlu, y Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru Gwasanaethau yn eu trefn dros yr ardaloedd lle mae'r stryd wedi'i lleoli; ac

(dd) i unrhyw berson sydd wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod strydoedd yn gofyn am gael ei hysbysu o unrhyw ddynodiad arfaethedig o dan adran 61.

4. Os nad yw'r awdurdod strydoedd yn cael gwrthwynebiad o fewn y cyfnod a bennir, neu os yw pob gwrthwynebiad wedi cael ei dynnu'n ôl, caiff yr awdurdod hwnnw wneud y dynodiad.

SCHEDULE

Regulations 14, 15 and 16

PROCEDURES FOR DESIGNATIONS UNDER SECTIONS 61, 63 AND 64 AND WITHDRAWAL OF SUCH DESIGNATIONS

PART 1

Designation of streets as protected

1. Before designating a street as protected under section 61, the street authority must publish a notice of their intention to make the designation on any website maintained by the authority for the purpose of providing information to the public.

2. The notice must specify a period, being not less than one month from the date on which the notice is published, within which objections may be made.

3. The street authority must, not later than the date on which the notice is published, give a copy of that notice to —

(a) every undertaker whom the authority know to be working in their area, or who has given notice under either section 54 or section 55 of its intention to execute street works in their area;

(b) every local authority (other than the street authority) in whose area any street to which the proposed designation relates is situated;

(c) the occupiers or reputed occupiers of any land which is adjacent to the street;

(d) any Passenger Transport Executive or other transport authority in whose area the street is located;

(e) the Chief Officer of Police, the Chief Fire Officer and the Chief Executive of the Welsh Ambulance Service Trust in whose respective areas the street is located; and

(f) any person who has made a written request to the street authority asking to be given notice of any proposed designation under section 61.

4. If within the specified period no objection is received by the street authority, or if all objections have been withdrawn, that authority may make the designation.

5. Os yw'r awdurdod strydoedd yn cael gwrthwynebiad o fewn y cyfnod hwnnw gan unrhyw berson y mae'n ofynnol rhoi copi o'r hysbysiad iddo o dan baragraff 3 neu gan unrhyw berson arall yr ymddengys i'r awdurdod strydoedd y byddai'r dynodiad arfaethedig yn effeithio arno, ac na thynnir y gwrthwynebiad yn ôl, rhaid i'r awdurdod strydoedd beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal cyn gwneud y dynodiad.

6. Pan fo ymchwiliad lleol wedi cael ei gynnal rhaid i'r awdurdod strydoedd ystyried y gwrthwynebiadau ac adroddiad y person a gynhaliodd yr ymchwiliad a chaiff wneud y dynodiad gydag addasiadau neu hebddynt, neu caiff benderfynu peidio â'i wneud.

5. If within that period an objection is received by the street authority from any person to whom a copy of the notice is required to be given under paragraph 3 or from any other person appearing to the street authority to be affected by the proposed designation and the objection is not withdrawn, the street authority must, before making the designation, cause a local inquiry to be held.

6. Where a local inquiry has been held the street authority must consider the objections and the report of the person who held the inquiry and may make the designation with or without modifications, or may decide not to make it.

RHAN 2

Dynodi strydoedd yn rhai ag iddynt anawsterau peirianyddol arbennig neu yn rhai sy'n sensitif i draffig

7. Cyn dynodi stryd yn un ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig o dan adran 63 neu yn un sy'n sensitif i draffig yn unol â rheoliad 16(1), rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad o'i fwriad i wneud y dynodiad

(a) i bob ymgymerwr y mae'r awdurdod yn gwybod ei fod yn gweithio yn ei ardal, neu sydd wedi rhoi hysbysiad, naill ai o dan adran 54 neu o dan adran 55 ei fod yn bwriadu gwneud gwaith stryd yn ei ardal;

(b) i bob awdurdod lleol (ac eithrio'r awdurdod strydoedd) lle mae unrhyw stryd y mae'r dynodiad arfaethedig yn ymwneud â hi wedi'i lleoli;

(c) unrhyw Weithrediaeth Trafnidiaeth i Deithwyr neu unrhyw awdurdod trafnidiaeth arall dros yr ardal lle mae'r stryd wedi'i lleoli;

(ch) i Brif Swyddog yr Heddlu, Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru Gwasanaethau yn eu trefn dros yr ardaloedd lle mae'r stryd wedi'i lleoli; a

(d) i unrhyw berson sydd wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod strydoedd yn gofyn am gael ei hysbysu o unrhyw ddynodiad arfaethedig.

8. Rhaid i'r hysbysiad bennu—

(a) cyfnod, nad yw'n llai na mis o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad, y caniateir gwneud gwrthwynebiadau o'i fewn. a

(b) yn achos hysbysiad a roddir at ddibenion rheoliad 16(1), pa rai o'r meini prawf a osodir yn rheoliad 16(2) a fodlonir o ran y stryd.

PART 2

Designation of streets as having special engineering difficulties or as being traffic-sensitive

7. Before designating a street as having special engineering difficulties under section 63 or as being traffic-sensitive in accordance with regulation 16(1), the street authority must give notice of their intention to make the designation to —

(a) every undertaker whom the authority know to be working in their area, or who has given notice under section 54 or section 55 of its intention to execute street works in their area;

(b) every local authority (other than the street authority) in whose area any street to which the proposed designation relates is situated;

(c) any Passenger Transport Executive or other transport authority in whose area the street is located;

(d) the Chief Officer of Police, the Chief Fire Officer and the Chief Executive of the Welsh Ambulance Service Trust in whose respective areas the street is located; and

(e) any person who has made a written request to the street authority asking to be given notice of any such proposed designation.

8. The notice must specify —

(a) a period, being not less than one month from the date on which the notice is given, within which objections can be made; and

(b) in the case of a notice given for the purposes of regulation 16(1), which of the criteria set out in regulation 16(2) are met in relation to the street.

9. Os nad yw'r awdurdod strydoedd yn cael gwrthwynebiad o fewn y cyfnod a bennir, neu os yw pob gwrthwynebiad wedi cael ei dynnu'n ôl, caiff yr awdurdod hwnnw wneud y dynodiad.

10. Os yw'r awdurdod strydoedd yn cael gwrthwynebiad o fewn y cyfnod hwnnw gan unrhyw berson y mae'n ofynnol rhoi copi o'r hysbysiad iddo o dan baragraff 7 neu gan unrhyw berson arall yr ymddengys i'r awdurdod strydoedd y byddai'r dynodiad arfaethedig yn effeithio arno, ac na thynnir y gwrthwynebiad yn ôl, rhaid i'r awdurdod strydoedd ystyried y gwrthwynebiad cyn gwneud y dynodiad a chaiff wneud y dynodiad gydag addasiadau neu hebddynt, neu caiff benderfynu peidio â'i wneud.

9. If within the specified period no objection is received by the street authority, or if all objections have been withdrawn, that authority may make the designation.

10. If within that period an objection is received by the street authority from any person to whom notice is required to be given under paragraph 7 or from any other person appearing to the street authority to be affected by the proposed designation and the objection is not withdrawn, the street authority must before making the designation consider the objection and may make the designation with or without modifications or may decide not to make it.

RHAN 3

PART 3

Hysbysiad o ddynodiad

11. Rhaid i awdurdod strydoedd roi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad i ddynodi stryd yn stryd a warchodir, yn stryd ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig neu yn stryd sy'n sensitif i draffig i unrhyw ymgymerwr y rhoddodd gopi o hysbysiad iddo o dan baragraff 3(a), neu, yn ôl y digwydd, hysbysiad o dan baragraff 7(a).

Notice of designation

11. A street authority must give written notice of their decision to designate a street as protected, as having special engineering difficulties or as traffic-sensitive to any undertaker to whom they gave a copy of a notice under paragraph 3(a), or, as the case may be, a notice under paragraph 7(a).

RHAN 4

PART 4

Tynnu dynodiad yn ôl a chofnodi penderfyniadau

12. Ar ôl ymgynghori â phob person sydd â hawl i gael hysbysiad neu gopi o hysbysiad o dan y weithdrefn ddynodi berthnasol, caiff awdurdod strydoedd dynnu'n ôl ddynodiad stryd yn stryd a warchodir, yn stryd sy'n sensitif i draffig neu, yn ddarostyngedig i adran 63(4), yn stryd ag iddi anawsterau peirianyddol arbennig, ar unrhyw adeg.

13. Caiff unrhyw berson sydd â hawl i gael hysbysiad neu gopi o hysbysiad o dan y weithdrefn ddynodi berthnasol neu unrhyw berson arall sydd ym marn yr awdurdod â buddiant digonol wneud sylwadau i'r awdurdod strydoedd yn gofyn iddo dynnu'r dynodiad yn ôl. Rhaid i'r awdurdod ystyried yn ofalus unrhyw sylwadau o'r fath cyn penderfynu ei dynnu yn ôl ai peidio.

14. Os yw awdurdod strydoedd yn tynnu dynodiad yn ôl rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad ei fod wedi'i dynnu'n ôl ar unrhyw wefan a gynhelir gan yr awdurdod at y diben o ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd.

Withdrawal of designation and recording of decisions

12. After consultation with every person entitled to notice or a copy of a notice under the relevant designation procedure, a street authority may at any time withdraw the designation of a street as protected, as traffic-sensitive or, subject to section 63(4), as having special engineering difficulties.

13. Any person entitled to notice or a copy of a notice under the relevant designation procedure or any other person whom the street authority consider to have sufficient interest may make representations to the street authority requesting the withdrawal of a designation. The authority must carefully consider any such representations before deciding whether or not to withdraw it.

14. If a street authority withdraw a designation they must publish notice of the withdrawal on any website maintained by the authority for the purpose of providing information to the public.

15. Pan fo rheolwr strydoedd yn gwneud dynodiad neu yn tynnu dynodiad yn ôl rhaid iddo hysbysu'r awdurdod priffyrdd.

16. Pan fo awdurdod priffyrdd yn gwneud dynodiad neu yn tynnu dynodiad yn ôl, neu yn cael ei hysbysu gan reolwr strydoedd yn unol â pharagraff 15, rhaid i'r awdurdod

(a) hysbysu deiliad y consesiwn ar y pryd sydd â'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw'r Rhestr Strydoedd Genedlaethol; a

(b) cofnodi'r cyfryw benderfyniadau ar y gofrestr gwaith stryd,

cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a beth bynnag, o fewn mis.

15. When a street manager makes or withdraws a designation he or she must notify the highway authority.

16. When a highway authority make or withdraw a designation, or receive notification from a street manager in accordance with paragraph 15, the authority must —

(a) notify the concessionaire for the time being responsible for maintaining the National Street Gazetteer; and

(b) record such decisions on the street works register,

as soon as reasonably practicable and in any event within one month.

RHAN 5

Dehongli

17. Yn yr Atodlen hon

mae i "awdurdod lleol" yr un ystyr ag a roddir i "*local authority*" gan adran 270(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**);

Rhaid dehongli "Gweithrediaeth Trafnidiaeth i Deithwyr" yn unol â'r dehongliad o "*Passenger Transport Executive*" yn adran 9 o Ddeddf Drafnidiaeth 1968(**2**); ac

ystyr "y Rhestr Strydoedd Genedlaethol" ("*the National Street Gazetteer*") yw'r gronfa ddata gyfrifiadurol genedlaethol o strydoedd sy'n cael ei chynnal a'i chadw gan ddeiliad y consesiwn ar y pryd a benodir gan y Ty Gwybodaeth Llywodraeth Leol Cyfyngedig ("*the Local Government Information House Limited*").

PART 5

Interpretation

17. In this Schedule —

"local authority" has the meaning given by section 270(1) of the Local Government Act 1972(**1**);

"the National Street Gazetteer" means the national computer database of streets which is maintained by the concessionaire for the time being appointed by the Local Government Information House Limited; and

"Passenger Transport Executive" shall be construed in accordance with section 9 of the Transport Act 1968(**2**)

(**1**) 1972 p.70. Diwygiwyd adran 270(1) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51), adran 102(2) ac Atodlen 17. Mae yna ddiwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) 1968 p.73. Amnewidiwyd adrannau 9(1) a (2) a'u diwygio gan Ddeddf Drafnidiaeth 1985 (p.67), adrannau 57(1) a 58(2). Mae yna ddiwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1972 c.70. Section 270(1) was amended by the Local Government Act 1985 (c.51), section 102(2) and Schedule 17. There are other amendments which are not relevant to these Regulations.

(**2**) 1968 c.73. Section 9(1) and (2) were substituted and amended by the Transport Act 1985 (c.67), sections 57(1) and 58(2). There are other amendments not relevant to these Regulations

©℗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

W242/02/08 ON